"Taw, hyt y mynyoch," heb y Riannon, "ny bu uascrellach gwr ar y ssynnywr e hwn nog ry uoest ti." "Arglwydes," heb ef, "ny wydwn i pwy oed ef." "Llyna y gwr y mynyssit uy rodi i idaw o'm hanuod," heb hi, "Guawl uab Clut, gwr tormyn [21] nawe, kyuoethawe. A chan derw yt dywedut y geir a dywedeist, dyro ui idaw rac anglot yt." "Arglwydes," heb ef, "ny wnn i pa ryw attep yw hwnnw. Ny allaf ui arnaf a dywedy di uyth." "Dyro di ui idaw ef," heb hi, "a mi a wnaf na chaffo ef uiui uyth." "Pa furyf uyd hynny?" heb y Pwyll. "Mi a rodaf i'th law got uechan," heb hi, "a chaw honno genryt yn da. Ac ef a eirch y wled a'r arlwy a'r darmerth. Ac nit oes y'th uedyant di hynny. A mi ui a rodaf y wled y'r teulu a'r niuerod," heb hi, "a hwnnw uyd dy attep am hynny. Andanaf innheu," heb hi, "mi a wnaf oet ac ef, ulwydyn y heno, y gyscu gennyf; ac ym penn y ulwydyn," heb hi, "byd ditheu a'r got honn genhyt, ar dy gamet marchaw yn y perillan uchof. A phan uo ef ar perued y digrifwch a'y gyuedach, dyret titheu dy hwn ymwyn a dillat reudus andanat, a'r got y'th law," heb hi, "ac nac arch dim naryn lloneit y got o uwyt. Minheu," heb hi, "a baraf, bei dottit yssyd yn y seith cantref hyn o uwyt a llynn yndi, na bydei launach no chynt. A gwedy byryer llawer yndi, ef a ouyn yt, 'A uyd llawn dy got ti uyth?' Dywet titheu, 'Na [22] uyd, ony chyuyt dylsedauc tra chyuoethauc, a guascu a'y deudret y bwyt yn y got, a dywedut, 'Digawn rydodet ymman.' A minheu a baraf idaw ef uynet y sseghi y bwyt yn y got. A phan el ef, tro ditheu y got, yny el ef dros y pen yn y got. Ac yna llad glwm ar gariyau y got. A bit oern canu da am dy uymgyd, a phan uo ef yn rymedic yn y got, dot titheu lef ar dy gorn, a bit hynny yn arwyd y rot a'th uarchogyon; pan glywhont llef dy gorn, diskymnet wynteu am ben y llys."

-----  
 pwyll penduic dyuet  
 -----

"Arglwyd," heb y Guawl, "madws oed ymi cael attep am a ercheis."

"Kymeint ac a ercheist," heb y Fwyll, "o'r a uo y'm medyant i, ti a'y keffy." "Eneit," heb hitheu Riannon, "am y wled a'r darpar yssyd yma, hwmnw a rodeis i y wyr Dyuet ac y'r teulu, a'r yniuroed yssyd ymma. Hwmnw nit eidawaf y rodi y neb. Blwydyn y heno ynteu, y byd gwled darparedic yn y llys honn i titheu, eneit, y gyscu gennyf innheu."

Gwawl a gerdawd ryngthaw a'y gyuoeth. Fwyll ynteu a doeth y Dyuet. A'r ulwydyn honno a dreulwys pawb o honant hyt oet y wled a oed yn llys [23] Eueyd Hen. Gwawl uab Clut a doeth parth a'r wled a oed darparedic idaw, a chyrcu y llys a wnaeth, a llawen uwyt wrthaw. Fwyll ynteu Penn Annwn a doeth y'r berllan ar y ganuet marchauc, ual y gorchywynnassei Riannon idaw, a'r got ganthaw. Gwiscaw bratteu trwm ymdan a'w a oruc Fwyll, a chymryt llopaneu mawr am y draet. A phan wybu y bot ar dechreu kyuedach wedy bwyta, dyuot raddaw y'r neuad; a guedy dyuot y gynted y neuad kyuaroch guell a wnaeth y Wawl uab Clut a'y gedymdeithon o wyr a gwaged. "Duw a rp da yt," heb y Gwawl, "a chraessaw Duw wrthyt." "Arglwyd," heb ynteu, "Duw a dalo yt. Negessawl wyf wrthyt." "Craessaw wrth dy neges," heb ef. "Ac os arch gyuartal a erchy ymi, yn llawen ti a'e keffy." "Kyuartal, Arglwyd," heb ynteu, "nyt archaf onyt rac eisseu. Sef arch a archaf, lloneit y got uechan a wely di o uwyt." "Arch didraha yw honno," heb ef, "a thi a'y keffy yn llawen. Dygwch uwyt idaw," heb ef. Riuedi mawr o sswydwy'r a gyuodassant y uynyd, a dechreu llenwi y got. Ac yr a uyrnt yndi ny bydei lawmach no chynt. "Eneit," [24] heb y Guawl, "a uyd llawm dy got ti uyth?" "Na uyd, y rof a Duw," heb ef, "yr a dotter yndi uyth, ony chuyt dylyedauc tir a dayar a chyuoeth, a ssenghi a'y deudroet y bwyt yn y got a dywedut. "Digawm ry dodet yma." "A geimat," heb y Riannon, "kyuot y uynyd ar uyrnt," wrth Gwawl wab Clut. "Kyuodaf yn llawen," heb ef. A chyuoedi y uynyd, a dodi y deudroet yn y got, a troi o Fwyll y got jny uyd Guawl dros y penn yn y got ac yn gyflym oasu y got, a llad clym ar y carryeu, a dodi llef ar y gorn. Ac ar hynny, llyma y teulu am penn y llys, ac yma kymryt pawb o'r niuer a doeth y gyt a Guawl, a'y dodi yn y carchar e hun. A bwrw y bratteu a'r llopaneu a'r yspoil didestyl y amdanaw a oruc Fwyll.

Ac mnl y delei pob un o'e niuer ynteu y mywn, y trawei pob un dymnawt ar y got, ac y gouynnei, "Beth yssyd ymma?" "Broch," medynt wynteu. Sef kyfryw chwars a wneynt, taraw a wnal pob un dymnawt ar y got, ac a'e droet ac a throssawl; ac ywelly guare a'r got a wnaethont. Pawb, ual y delei, a ouynnei, "Pa chwars a wneuch chi uelly?" "Guare broch yg got," medynt wynteu. Ac yna gyntaf y guarywyt broch yg got.

-----  
pwyll pendeuic dyuet

"Arglwyd," heb y gwr o'r got, "pei guarandawut uiui, nyt oed dihenyd arnaf uy llad y mywn got." "Arglwyd," [25] heb Eueyd Hen, "guir a dyweit. Iawn yw yt y warandaw; nyt dihenyt arnaf hynny." "Ie," heb y Fwyll, "mi a wmaf dy gynghor di amdanaw ef." "Llyna dy gynghor di," heb Riannon yna. "Yd wyt yn y lle y perthyn arnat llonydu eirheit a cherdoryn. Cat yno ef y rodi drossot y pawb," heb hi, "a chymer gedernit y ganthaw na bo amcoyn na dial uyth amdanaw, a digawm yw hynny o gosp arnaf." "Ef a geif hynny yn llawen," heb y gwr o'r got. "A minheu a'e kymmeraf yn llawen," heb y Fwyll, "gan gynghor Heueyd a Riannon." "Kynghor yw hynny gyanyma ni," heb wynt. "Y gmyryt a wmaf," heb y Fwyll. "Keis ueicheu drossot." "Ni a uydwm drostaw," heb Heueyd, "jny uo ryd y wyr y uynet drostaw." Ac ar hynny y gollyngwyt ef o'r got ac y rydhawyt y oreugwyr. "Gouyn ueithon y Wawl ueicheu," heb yr Heueyd. "Ni a adwacwnn y heb a dylyer y kymryt y ganthaw." Riuaw y meicheu a wnaeth Heueyd. "Llunnya dy hunn," heb y Guawl, "dy amnot." "Digawm yw gennyf i," heb y Fwyll, "ual y llunyawd Riannon." Y meicheu a eth ar yr amnot hwmnw. "Ie, Arglwyd," heb y Guawl, "briwedic wyf i, a chymriw mawr a geueis, ac ennein yssyd reit ymi, ac y ymdeith yd af i, gan [26] dy gannat ti. A mi a adawaf wyrdia drossot yma, y attep y pawb o'r a' th ouynno di." "In llawen," heb y Fwyll, "a gwma ditheu hynny." Guawl a aeth parth a'y gyuoeth.

Y neuad ynteu a gyweirwyt y Fwyll a'e niuer, ac yniuer y llys y am hynny. Ac y'r bordeu yd aethont y eisted, ac ual yd eistedyasant ulwydyn o'r nos honno, yd eistedwys pawb y nos [honno]. Bwyta a chyuedach a wnaethont, ac amser a doeth y uynet y gyscu. Ac y'r ystauell yd aeth Fwyll a Riannon, a threulaw y nos honno drwy digriuwch a llonydweh.

A thrannoeth, yn ieuengtitt y dyd, "Arglwyd," heb Riannon, "kyuot y uynyd, a dechreu lonydu y kerdoryuon, ac na ommed neb hediw, o'r a ymmo da." "Hynny a wmaf i, yn llawen," heb y Fwyll, "a hediw a pheuyd tra parhao y wled honn." Ef a gyuodes Fwyll y uynyd, a pheri dodi gostec, y erchi y holl eirheit a cherdoryon dangos, a menegi udunt y llonydit pawb o honant wrth y uod a'y uymwy; a hynny a wnaethpwyd. Y wled honno a dreulwyd, ac ny ommedwyt neb tra barnaud. A phan darau y wled, "Arglwyd," heb y Fwyll wrth Heueyd, "mi a gychwynnaf, gan dy gannat, parth a Dyuet [27] auore." "Ie," heb Heueyd, "Duw a rwydhao ragot; a gwma oet a chyfnot y del Riannon i' th ol." "Y rof i a Duw," heb ynteu Fwyll, "y gyt y kerdwm odymma." "Ay uelly y mynny di, Arglwyd?" heb yr Heueyd. "Uelly, y rof a Duw," heb y Fwyll.

Wynt a gerdassant trannoeth parth a Dyuet, a llys Arberth a gorchyssant, a gwled darparedic oed yno udunt. Dygyuor y wlat a'r kyuoeth a doeth attant o'r gwyr goreu a'r gwaged goreu. Na gwr na gwreic o hynny nyt edewis Riannon, heb rodi rod enwauc idaw, ac o gae, ac o uodwyr, ac o uacen guerthauwr.

-----  
pwyll pendeuic dyuet

Gwledychu y wlat a wnaethont yn llwyddannus y ulwydyn honno, a'r eil. Ac yn [y] drydedd ulwydyn, y dechreuais gwyr y wlat dala trymryt ymduet, o welet gwr kymeint a gerynt a'e harglwyd ac eu brawdauath, yn dietiedu; a'e dyuynnattunt a wnaethont. Sef lle y doethont y gyt, y Bresseleu yn Dyuet. "Arglwyd," heb wynt, "ni a wdom na bydy gyuoet ti a rei o wyr y wlat honn, ac yn cwyn ni yw, na byd it etiedu o'r wreic yssyd genryt. Ac wrth hynny, kymmer wreic arall y bo ettiued yt ohonei. Nyt byth," [28] heb wynt, "y perhey di, a chyt kerych di uot yuelli, nys diodefwn y genryt." "Ie," heb y Pwyll, "nyt hir ettwa yd ym y gyt, a llawer damwein a digawn bot. Oedwch a mi hynn hyt ym pen y ulwydyn; a blwydyn y'r amser hwnn, ni a wnawn yr oet y dyuot y gyt, ac wrth ych kynghor y bydaf." Yr oet a wnaethant. Kynn dyuot cwyl o'r oet, mab a anet idaw ef, ac yn Arberth y genet. A'r nos y genet, y duopwynt gwaged y wylat y mab a'y uam. Sef a wnaeth y gwaged y kyscu, a mam y mab, Riannon. Sef riuedi o wraged a duopwynt y'r ystauell hwech wraged. Gwylat a wnaethont wynteu dalyd o'r nos, ac yn hynny cisswys, kyn hanner noss, kyscu a wnaeth pawb ohonunt, a thu a'r pylgeint deffroi. A phan deffroyssant, edrych a orugent y lle y dodyssynt y mab, ac nyt oed dim ohonaw ymo. "Ochi!" heb yn o'r gwaged, "neur golles y mab." "Ie," heb arall, "bychan a dial oed yn llosgi ni, neu yn dienydyaw am y mab." "A oes," heb un o'r guraged, "kynghor o'r byt am hynn?" "Oes," heb arall, "mi a wnn gynghor da," heb hi. "Beth yw hynny?" heb wy. "Cellast yssyd yma," heb hi, "a chanawon genti. Lladwn rei o'r canawon, ac irwn y hwyneb hitheu Riannon [29] a'r gwaet, a'y dwyllaw, a byrwn yr eskym gyr y bron, a thaerwn arnei e hun diuetha y mab. Ac ni byd yn taered ni an chwch wrthi hi e hun." Ac ar y kynghor hwnnw y trigwynt.

Parth a'r dyd Riannon a deffroes, ac a dywot, "A wraged," heb hi, "mae y mab?" "Arglwydes," heb wy, "na cwyn di yni y mab. Nyt oes ohonam ni namyn cleisseu a dymodeu yn ymdaraw a thi; a diantheu yw gennym na welsam eiroot uilmwath yn un wreic kymeint ac ynot ti. Ac ny thygyawd yni ymdaraw a thi. Neur diffetheicist du hun dy uab, ac na hawl ef ynni." "A druein," heb y Riannon, "yr yr arglwyd Duw a wyr pob peth, na yrrwch geu arnaf. Duw, a wyr pob peth, na yrwrch geu arnaf. Duw, a wyr pob peth, a wyr bot yn eu hynny arnaf i. Ac os cwyn yssyd arnaf, ym kyffes y Duw, mi a'ch differaf." "Dioer," heb wy, "Ny adwn ni drwoc arnaf ny hunein yr dyn yn y byt." "A druein," heb hitheu, "ny chewch un drwoc yr dywedut y wirioned." Yr a dywetteit hi yn dec ac yn druan, ny chaffei namyn yr un ateb gan y gwaged.

Fwyll Penn lnmw ar hynny a gyuodes, a'r teulu a'r yniuroed, a chelu y damwein hwnnw ny allwynt. Y'r wlat yd oeth y chwedyl, a phawb o'r guyrda a'e kigleu. A'r gu yrda a doethant y gyt y [30] wnaethur kynndeau at Fwyll, y erchi idaw yscar a'e wreic, am gyflauan mor anwedus ac ar y wnaethoed. Sef attep a rodes Fwyll, "Nyt oed achaws ganthunt wy y erchi y mi yscar a'm gwreic namyn na bydei plant idi. Plant a wnn i y uot idi hi. Ac nyt yscaraf a hi. O gwaeth hitheu gam, kymeret y phenyt andanaw." Hitheu Riannon a dyuynnwys attei athrawon a doethon. A gwedy bot yn degach genthi kymryt y phenyt nog ymdaeru a'r gwaged, y phenyt a gmerth. Sef penyt a dodet erni, bot yn y llys honno yn Arberth hyt ym penn y seith mlyned. Ac

-----  
pwyll pendeuic dyuet

yskynuaen a oed odieithyr y porth, eistedd gyr llaw hwnnw beuny, a dywedut y pawb a delei o'r a debygei nas gwyppei, y gyffranc oll, ac o'r a attei idi y dwyn, kynnig y westei a phellynic y dwyn ar y cheuyn y'r llys. A damwein y gadei yr un y dwyn. Ac yuelli treulaw talym o'r ulwydyn a wnaeth.

Ac yn yr amser hwnnw yd oed yn arglwyd ar Wynt Ys Coet, Teirnon Twryf Uliant, a'r gwr goreu yn y byt oed. Ac yn y ty yd oed cassec. Ac nyt oed yn y dymas, na march [31] na chassec degach no hi; a phob nos Calanmei y moei, ac ny wybydei heb un geir e wrth y hebawl. Sef a wnaeth Teirnon, ymdidan nosweith a'y wreic, "Ha wreic," heb ef, "llibin yd ym pob blwydyn yn gadu heppil yn cassec, heb gafel yr un o honunt." "Peth a ellir wrth hynny?" heb hi. "Dial Duw arnaf," heb ef, "nos Calanmei yw henc, ony wytydaf i pa dileith yssyd yn dwyn yr ebolyon." Peri dwyn y gassec y sywn ty a wnaeth, a gwiscoaw arueu andanaw a oruc ynteu, a dechreu gwylat y nos. Ac ual y byd dechreu noss, moi y gassec ar ebawl mawr telediwi, ac yn seuyll yn y lle. Sef a wnaeth Teirnon, kyuodi ac edrych ar prafter yr ebawl, ac ual y byd yuelli, ef a glywei twrwr mawr, ac yn ol y twrwr, llyma grauanc uawr drwy fenestyr ar y ty, ac yn ymauel a'r ebawl geir y uwng. Sef a wnaeth ynteu Teirnon, tynnu cledydf, a tharaw y ureich o not yr elin e ymdeith, ac yny uyd hynny o'r ureich a'r ebawl ganthaw ef y nywng. Ac ar hynny twrwr, a diskyr a gigleu y gyt. Agori y drws a oruc ef a dwyn ruthyr yn ol y twrwr. Ny welei ef y twrwr rac tywylllet [32] y nos. Ruthyr a duc yn y ol, a'y ymlit. A dyuot oof idaw adaw y drws y agoret, ac ymkwelut a wnaeth. Ac wrth y drws, llyma uab bychan yn y gorn, guedy troi llenn o bali yn y gylch. Kymryt y mab a wnaeth attaw, a llyma y mab yn gryf yn yr oet a oed arnaf.

Dodi cayat ar y drws a wnaeth, a chyrru yr ystauell yd oed y wreic yndi. "Arglwydes," heb ef, "ay kyscu yd wyt ti?" "Nac ef, Arglwyd," heb hi. "Mi a gyskeis, a phan doethost ti y nywng mi a deffroeis." "Mae yma mab it," heb ef, "os mynny, yr hwnn ny bu yt eiroot." "Arglwyd," heb hi, "pa gyffranc un hynny?" "Llyma oll," heb y Teirnon, a menegi y dadyd oll. "Ie, Arglwyd," heb hi, "pa ryw wisoc yssyd am y mab?" "Elen o bali," heb ynteu. "Mab y dynnyon mynny yw," heb hi. "Arglwyd," heb hi, "digrifwch a didanwch oed genryf i, bei mynnt ti, mi a dygwng wraged yn un a mi, ac a dywedwn uy not y ueichawo." "Nyui a daunaf a thi yn llawen," heb ef, "am hynny." Ac yuelli y gwaethpwynt. Peri a wnaethont bedydyaw y mab, o'r bedyd a wneit yna. Sef enw a dodet arnaf, Gwri Wallt Buryd. Yr hynn a oed ar y ben o wallt, kyuelynet oed a'r eur.

Meithryn y mab a wnaethpwynt yn y [33] llys yny oed ulwyd. A chynn y ulwyd yd oed yn kerlet yn gryf, a breiscoach oed no mab teir blwyd, a uei uawr y dwf a'e ueint. A'r eil ulwydyn y magwynt y mab, a chym ureisket

-----  
pwyll pendeuic dyuet

oed a nab chweblwyd. A chynn penn y pedwryd ulwydyn, yd oed yn ymoprau a gweisson y meirch, an y adu o'e dwnn y'r dwydr. "Arglwyd," heb y wreic wrth Teirnon, "mae yr ebawl a differeist ti y noss y keueist y mab?" "Mi a'e gorchymynneis y weisson y meirych," heb ef, "ac a ercheis synnyaw wrthaw," "Ponyt oed da iti, Arglwyd," heb hi, "peri y hywed, a'y rodi y'r mab? Karys y noss y keueist y mab y ganet yr ebawl ac y differeist." "Nyt af i yn erbyn hynny," heb y Teirnon. "Mi a adaf y ti y rodi idaw." "Arglwyd," heb hi, "Daw a dalo yt, mi a'e rodaf idaw." Y rodet y march y'r mab, ac y deuth hi at y gwastrdyon, ac at weisson y meirch, y orchymyn synyweit wrth y march, a'e uot yn hywed erbyn pan elei y mab y uarchogaeth, a chwedyl wrthaw.

Emysc hynny, wynt a glywssont chwedlydaeth y wrth Riannon, ac an y phoen. Sef a wnaeth Teirnon Twryf Uliant, o achaws y douot a gawssci, ymwarandaw an y chwedyl, ac amouyn yn [34] lut ymdanaw yny gogleu gan lawer o luossogrwyd, o'r a delei y'r llys, rnyychu cynnaw truanet danwein Riannon, a'y phoen. Sef a wnaeth Teirnon ynteu, medlyaw am hynny, ac edrych ar y mab yn graf. A chael y y uedwl, yn herwyd gweledigaeth, na rywelsei eirot mab a that kyn debycket a'r mab y Pwyll Penn Annwn. Ansawd Pwyll hysgys oed gantaw ef, canys gwr uuassei idaw kyn no hynny. Ac yn ol hynny, goueileint a dellis yndaw, o ganhet idaw attal y mab ganthaw, ac ef yn gybot y uot yn uab y wr arall. A phan gauas gyntaf o yscawalwch ar y wreic, ef a uenegis idi hi, nat oed iawn udunt wy attal y mab ganthaw, a gadu poen kymmeint ac a oed, ar wreicda kystal a Riannon o'r achaws hwnnw, a'r mab yn uab y Pwyll Penn Annwn.

A hitheu wreic Teirnon a gytasnywys ar anuon y mab y Pwyll. "A thripheth, Arglwyd," heb hi, "a gaffwn o hynny, diollwch ac elwssen o ellwg Riannon o'r poen y mae yndaw, a diollwch gan Pwyll an ueithryn y mab, a'e eturyt idaw. A'r trydyd peth, os gwr mwyn uyd y mab, mab maeth ynni uyd, a goreu a allo uyth a vna inni." Ac ar y kynghor hwnnw y trigysant. Ac ny bu [35] hwy mab yn petwryd y gyt ac wynt ar y march a rodyssci Teirnon idaw. A cherdet parth ac Arberth a wnaethont. Ny bu hir y buont yny doethont y Arberth. Pan doethant parth a'r llys, wynt a welynt Riannon yn eisted yn emyl yr yskynuaen. Pan doethont yn gyruuch a hi, "a unbenn," heb hi, "nac ewch bellach hynny. Mi a dygaf pob un o honawch hyt y llys. A hynny yw uym peryt am lad o honaf uu hun uy mab, a'e diuetha." "A wreicda," heb y Teirnon, "ny thebygaf i y un o hyn unet ar dy geuyn di." "Aet a'y myno," heb y mab, "nyt af i." "Dioer, eneit," heb Teirnon, "nyt awn ninheu." Y llys a gyrchysant. A diruawr llyweryd a uu yn y herbyn. Ac yn dechreu treulaw y wled yd oedit yn y llys. Ynteu Pwyll a oed yn dyuot o gylchaw Dyuet. Y'r ymseud yd aethont, ac y

-----  
 pwyll pendeuc dyuet  
 -----

ymolchi. A llawen uu Pwyll wrth Teirnon, ac y eisted yd aethont. Sef ual yd eisteddysont, Teirnon y rwg Pwyll a Riannon, a deu gedymdeith Teirnon uch llaw Pwyll a'r mab y ryngthunt. Guedy daruot bwyta, ar dechreu kyuedach, ymdidan a wnaethon. Sef ymdidan a uu gan Teirnon, menegi y holl gyfranc an y gassec ac an y mab, [36] a megys y buassei y mab ar y hardelw wy, Teirnon a'e wreic, ac y megysynt. "Ac wely dy yna dy uab, Arglwydes," heb y Teirnon. "A phwy bynnac a dywot geu arnat, can a wnaeth. A minheu pann gogleu y gouot a oed arnat, trwm uu gennyf, a doluryaw a wneuthum. Ac ny thebygaf o'r yniuer hwnn oll, nit adnappo uot y mab yn uab y Pwyll," heb y Teirnon. "Nyt oes heb," heb y pawb, "ny bo diheu gantaw hynny." "Y rof i a Duw," heb y Riannon, "oed escor uym pryder im, pei gwir hynny." "Arglwydes," heb y Pendaran Dyuet, "da yd enweist dy uab, Pryderi. A goreu y gueda amaw Pryderi uab Pwyll Penn Annwn." "Edrychwch," heb y Riannon, "na bo goreu y gueda amaw y erw e hun." "Mae yr emu?" heb y Pendaran Dyuet. "Gwri Wallt Euryr a dodysson ni amaw ef." "Pryderi," heb Pendaran Dyuet, "uyd y emw ef." "Yawnahaf yw hynny," heb y Pwyll, "kymryt enw y mab y wrth y geir a dywot y uam, pann gauas llawen chwedyl y wrthaw." Ac ar hynny y trigwyt.

"Teirnon," heb y Pwyll, "Daw a dalo yt ueithryn y mab hwn hyt yr awr hon. A iawn yw idaw ynteu, o'r byd gwr mwyn, y dalu ytti." "Arglwyd," heb y Teirnon, "y wreic a'e magwys ef, nyt oes yn y byt dyn uwy y galar no hi yn y ol. Iawn yw idaw coffaw ynd, ac [37] y'r wreic honno, a wnaethon yrdaw ef." "Y rof i a Duw," heb y Pwyll, "tra parhawf i, mi a'th kynhalyaf, a thi a'th kyuoeth, tra allwyf kynnal y meu uy hun. Os ynteu a uyd, iawmach yw idaw dy gynnalhogt y mi.

Ac os kynghor gennyf ti hynny, a chan hynn o wyrda, canys negeist ti ef hyt yr awr hon, ni a'e rodmw ar uaeth at Pendaran Dyuet o hynn allan. A bydwch gedymdeithon chwitheu a thatmaethu idaw." "Kynghor iawn," heb y pawb, "yw hwnnw." Ac yna y rodet y mab y Pendaran Dyuet, ac yd ymyrrwys gwyrda y wlat y gyt ac ef. Ac y kydwynwys Teirnon Twryflant a'y gedymdeithon y ryngtaw a'y wlat ac a'e kyuoeth, gan garyat a llyweryd. Ac nyt aeth heb gynhich ydaw y tlyasseu teccaf a'r meirych goreu a'r own hoffaf. Ac ny mynwys ef dim.

Yna y trigysant wynteu ar eu kyuoeth, ac y magwy Pryderi uab Pwyll Pen Annwn yn amgledus, ual yd oed dylwet, yny oed deledihaf gwass, a theccaf, a chwplaf o pob camp da, o'r a oed yn y dyrnas. Uelly y treulysant bliwydyn a bliwydyned, yny doeth teruyn ar hoedyl Pwyll Penn Annwn, ac y bu uarw. Ac y gwledychwys ynteu Pryderi seith cantref Dyuet, yn llwydannus garedic gan y kyuoeth, a chan pawb yn y gylch. Ac yn ol hynny y kynydwys trychantref Ystrat Tywi [38] a phedwar cantref Kerredigawm. Ac y gelwir y rei hynny,

-----  
 pwyll pendeuc dyuet  
 -----

seith cantref Seissyllwch. Ac ar y llynnyd hwnnw y bu ef, Pryderi uab Pwyll Penn Annwn, yny doeth yn y uryt wreika. Sef gwreic a uynnawd, Kicua, uerch Wynn Gohoyw, uab Gloyw Walltlydan, uab Cassnar Wledic o dyledogyon yr ynys hon.

Ac yuelly y teruyna y geing hon yma o'r Mabynnogyon.

-----  
 pwyll pendeuic dyuet  
 -----

BRANWEN UERCH LYR

BENDIGEIDURAN uab Llyr, a oed urenhin coronawc ar yr ynys hon, ac ardyrchawc o goron Lundein. A frynhawgusith yd oed yn Hardlech yn Ardudwy, yn llys idaw. Ac yn eisted yd oedynt ar garrec Hardlech, uch penn y weilgi, a Manawydan uab Llyr y urawt y gyt ac ef, a deu uroder un uam ac ef, Nissyen, ac Efnysyen, a guyrda y am hynny, mal y gwedei ynglych brenhin.

Y deu uroder un uam ac ef, meibon oedyn y Eurosswyd o'e uam ynteu Penardun, uerch Ueli uab Mynogan. A'r neill o'r gueisson hynny, gwas da oed; ef a barei tangneued y rwg y deu lu, ban udynt lidyawcaf; sef oed hwnnw Nissyen. Y llall a barei ymlad y rwng y deu uroder, ban uei uwyaf yd ymgerynt.

Ac ual yd oedynt yn eisted yuelly, wynt a welynt teir llong ar dec, yn dyuot o deheu Iwerdon, ac yn kyrchu parth ac attunt, [39] a cherdet rugyl ebrwyd ganthunt: y gwynt yn eu hol, ac yn nessau yn ebrwyd attunt. "Mi a welaf llongeu racco," heb y brenhin, "ac yn dyuot yn hy parth a'r tir. Ac erchwch y wyr y llys wiscau andanunt, a mynet y odrych pa uedwl yw yr eidunt." Y gwyr a wiscau andanunt ac a nessayssant attunt y wayret. Gwedy guelet y llongeu o agos, diheu oed ganthunt na welynt eiryost llongeu gyweirach eu hansawd noc wy. Arwydon tec, guedus, arwreid o bali oed arnunt.

Ac ar hynny, nachaf un o'r llongeu yn raculaenu rac y rei ereill, ac y guelynt dyrchauael taryan, yn uch no bwrdd y llong, a swch y taryan y uynyd yn arwyd tangneued. Ac y nessawys y gwyr attunt, ual yd ymglywynt ymdidan: Bwrw badeu allan a wnaethont wynteu, a nessau parth a'r tir, a chyuaroch guell y'r brenhin. E brenhin a'e clywedi wynteu o'r lle yd oed ar garrec uchel uch eu penn, "Daw a rodo da ywch," heb ef, "a grayssaw wrthywch. Pieu

-----  
 branwen uerch lyr  
 -----

yniuer y llongeu hynn, a phwy yssyd pennaf amunt wy?" "Arglwyd," heb wnt, "mae ymma Matholwch brenhin Iwerdon, ac ef bieu y llongeu." "Beth," heb y brenhin, "a ynnhei ef? A uyn ef dyuot y'r tir?" "Na uynn, Arglwyd," heb wnt, "negessawl [40] yw wrthyt ti, onyt y neges a geif." "By ryw neges yw yr eiddaf ef?" heb y brenhin. "Mynnu ymgyuathrachu a thidy, Arglwyd," heb wnt. "Y erchi Branwen uerch Lyr y doeth, ac os da genhyt ti, ef a uyn ymrwymaw ynys y Kedeirn ac Iwerdon y gyt, ual y bydynt gadarnach." "Ie," heb ynteu, "doet y'r tir, a chynghor a gymerwn ninheu am hynny." Yr ateb hwnnw a ataw ef. "Minheu a af yn llawen," heb ef. Ef a doeth y'r tir, a llawen uwyt wrthaw; a dyguor mawr uu yn y llys y nos honno, y rwag e yniuer ef ac yniuer y llys.

Yn y lle trannoeth, kymryt kynghor. Sef a gahat yn y kynghor, rodi Branwen y Uatholwch. A honno oed tryded prif rieni yn yr ynys hon; teccaf morwyn yn y byt oed. A gwmeuthur oed yn Aberffraw y gyscu genti, ac odyno y kychwyn. Ac y kychwynassant yr yniuroed h ynni parth ac Aberffraw, Matholwch a'y yniuroed yn y llongheu, Bendigeituran a'y niuer ynteu ar tir, yny doethant hyt yn Aberffraw. Yn Aberffraw dechreu y wled, ac eisted. Sef ual yd eisteddyssant, brenhin Ynys y Kedeirn, a Manawydan uab Llyr o'r neill parth idaw, a Matholwch o'r parth arall, a Branwen uerch Lyr gyt ac ynteu.

Nyt ymryn ty yd odynt, namyn ymryn palleu. Ny angassei Uendigeituran eiryoet ymryn ty.

[41] A'r gyuedach a dechreussant. Dilit y gyuedach a wnaethant ac ymdidan. A phan welsant uot yn well udunt kymryt hun no dilit kyuedach, y gyscu yd aethant. A'r nos honno y kyscws Matholwch gan Uranwen. A thrannoeth, kyuodi a orugant pawb o niuer y llys; a'r swydyr a dechreussant ymaruar am ramyat y meiryth a'r gweisson. Ac eu ranna a wnaethant ym pob kyueir hyt y mor. Ac ar hynny dydgueith, nachaf Efnysen [y] gwr anagneuedus a dywedassam "Meiryth Matholwch brenhin Iwerdon yw y rei hyn," heb wy. "Beth a wnant wy yna?" heb ef. "Yma y mae brenhin Iwerdon, ac yr gyscws gan Uranwen dy chwaeir, a honno, ac yn chwaeir y minheu, y rodi heb ughenyat i? Ny eilynt wy tremic uwy araf i," heb ef. Ac ym hynny gwan y dan y meiryth, a thorri y guerlleu ac ny caei graf ar yr amranneu, eu llad wrth yr ascwm. A gwmeuthur anfurtyf ar y meiryth yuelly, hyd nat oed rym a ellit a'r meiryth.

E chwedyl a doeth at Uatholwch. Sef ual y doeth, dywedut [42] anfuraw y ueiryth ac eu llygru, hyt nat oed un mwynant a ellit o honnut. "Ie,

-----  
branwen uerch lyr  
-----

Arglwyd," heb un, "dy waradwydau yr a wnaethpwyt, a hynny a uynhir y wneuthur a thi." "Dioer, eres genhyf, os uy gwaradwydau a uynhynt, rodi morwyn gystal, kyuard, gyn anwylet gan y chenedyl, ac a rodyssant ym." "Arglwyd," heb un arall, "ti a wely dangos ef. Ac nyt oes it a wnelych, namyn kyrcu dy llongeu." Ac ar hynny arouan y llongeu a wnaeth ef.

E chwedyl a doeth at Uendigeituran, bot Matholwch ym adaw y llys, heb ouyn, heb ganhyat. A chenadeu a aeth y ouyn idaw, pahan oed hynny. Sef kennadeu a aeth, Idic uab Anarawc, ac Eueyd Hir. Y guyr hynny a'y godiwawd, ac a ouynssant idaw, pa darpar oed yr eiddaf, a pha achaws yd oed yn mynet e ymdeith. "Dioer," heb ynteu, "pei ys gwypwm, ry down yma. Cwbyl waradwyd a geueis. Ac ry duc neb kyrcu waeth no'r dugum ymma. A reuedawt rygyueryw a mi." "Beth yw hynny?" heb wnt. "Redi Bronwen uerch Lyr ym, yn tryded prif rieni yr ynys honn, ac yn uerch y uerchin. Ynys y Kedeirn, a chyscu genthi, a gwedy hynny uy gwaradwydau. A ryued oed genhyf, nat kyn rodi morwyn gystal a honno ym, y gwneit y [43] gwaradwyd a wnelit ym." "Dioer, Arglwyd, nyt o uod y neb a uedei y llys," heb wnt, "na neb o'e kynghor y gwmaet[h]pwyt y gwaradwyd hwnnw yt. A chyt bo gwaradwyd gennyt ti hynny, mwy yw gan Uendigeituran no chenynt ti, y tremic hwnnw a'r guare." "Ie," heb ef, "mi a tebygaf. Ac eissoes ni eill ef uy niwaradwydau i o hynny."

E gwyr hynny a ymchwelwys a'r ateb hwnnw, parth a'r lle yd oed Uendigeituran, a menegi idaw yr ateb a diwedyssei Uatholwch. "Ie," heb ynteu, "nyt oes ymwaret e uynet ef ym anygneuedus, ac nys gadwm." "Ie, Arglwyd," heb wy, "anucn etwa genhadeu yn y ol." "Anucnaf," heb ef. "Kyuodwch, Manawydan uab Llyr, ac Eueyd Hir, ac Unio Glew Yswyd, ac ewch yn y ol," heb ef, "a menegwch idaw, ef a geif march iach am pob un o'r a lygrwyt; ac y gyt a hynny, ef a geif yn wynepwerth idaw, llathon aryant a uo kyuref [a'e uys bychan] a chyhyt ac ef e hun, a chlaur eur kyflet a'y wyneb; a menegwch ydau pa ryw wr a wnaeth hynny, a phan yw o'm anuod inheu y gwmaethpwyt hynny; ac y may brawt un uam a mi a wnaeth hynny, ac nat hawd genhyf i na'e lad na'e diuetha; a doet y ymwelet a mi," heb ef, "a mi a wnaef y dangneued ar y llun [44] y mynho e hun."

E kennadeu a aethant ar ol Matholwch, ac a uanagyssant idaw yr ymadrawd hwnnw yn garedic, ac ef a'e guerendewis. "A wyr," heb ef, "ni a gymerwn kynghor." Ef a aeth yn y gynghor; sef kynghor a ueddyssant, - os gywthot hynny a wnelynt, bot yn tebygach genthant cael kywllid a uei uwy, no chael iawn a uei uwy. A disgynnau a wnaeth ar gymryt hynny. Ac y'r llys y deuthant yn dangneuedus. A chywdeiraw y pebylleu a'r palleu a wnaethant udant ar ur'ant kyweirdeb yneud, a mynet y uwyta. Ac ual y dechreussant eisted ar dechreu y wled, yd eisteddyssant yma.

-----  
branwen uerch lyr  
-----

A dechreu ymddan a wnaeth Matholwch a Bendigeituran. Ac nachaf yn ardiawo gan Uendigeituran yr ymddan, ac yn drist, a gael gan Uatholwch, a'y lywenyt yn wastat kyn no hynny. A medylaw a wnaeth, bot yn athrist gan yr unben uychanet a gawssai o iawn am y gam. "A wr," heb y Bendigeituran, "nit wyt gystal ymddanwr heno ac un nos. Ac os yr bychanet henhyt ti dy iawn, ti a gehy ychwanegu yt wrth dy uynnu, ac auory talu dy ueirch yt." "Arglwyd," heb ef, "Daw a dalu yt." "Mi a delediwaf dy iawn heuyt yt," heb y Bendigeituran. "Mi a rodaf yt peir; a chynnydyf y peir yw, [45] y gwr a lader hediw yt, y uwr yn y peir, ac erbyn auory y uot yn gystal ac y bu oreu, eithyr na byd llyueryd ganthaw." A diolwch a wnaeth ynteu hynny, a diruawr lywenyd a gymertu ynteu o'r achaws hwnnw. A thrannoeth y talwyf y ueirych idaw, tra barhawd meirych dof. Ac odyna y kyrcwyf ac ef kymwt arall, ac y talwyf ebolyon ydau, yny uu gwbyl idaw y dal. Ac wrth hynny y dodet ar y kymwt hwnnw o hynny allan, Tal Ebolyon.

A'r eil nos, eisted y gyt a wnaethant. "Arglwyd," heb y Matholwch, "pan doeth yti y peir a rodeist y mi?" "E doeth im," heb ef, "y gan wr a uu y'th wlat ti. Ac ni wn na bo yno y caffo." "Pwy oed hwnnw?" heb ef. "Llassar Llaes Gyfnewit," heb ef. "Llassar Llaes Gyfnewit," heb ef. "A hwnnw a doeth yma o Iwerdon, a Chymidei Kymeinuoll, y wreic, y gyt ac ef, ac a dianghyssant o'r ty hawm yn Iwerdon, pan wnaethpwyf yn wenn yn wrth hynny," "Gwn, Arglwyd," heb ef, "a chymaint ac a wnn, mi a'e manaf y ti. Yn hela yd oedwn yn Iwerdon, dydguseith, ar bein gorssed uch pennllyn oed yn Iwerdon, a llyn y Peir y gelwit. A mi a welwn gwr malyngoch, mawr, yn dyuot o'r llyn, a pheir ar y geuyn. A gwr heuyt athrugar, mawr, a drygweith anorles amaw oed; a gwreic yn y ol; ac ot [46] oed uawr ef, mwy dwyweith oed y wreic noc ef. A chyrcu ataf a wnaethant, a chyrcu uell im. "E," heb y mi, "pa gerdet yssyd amawch chwif? 'Ilyna gerdet yssyd amaw ni, Arglwyd,' heb ef, 'y wreic horn,' heb ef, 'yn penn pethewnos a mis, y byd beichogi idi, a'r mab a ener yna o'r torllwyth hwnnw, ar bein y pethewnos a'r mis, y byd gwr ymlad llawn arawo.' Y kymereis inheu wyntwy amaf, yu gossymdeithaw: y puant ulwydyn gyt a mi. Yn y ulwydyn y keucis yn diwaraun wynt; o hynny allan y guaraunwyf im. A chyn penn y pedwryd [mis] wynt eu hun yn peri eu hatcassu, ac anghynwys yn y wlat, yn gwneuthur sarahedeu, ac yn eighaw, ac yn gouduyaw guyrda a gwragedda. O hynny allan y dygyuores uyg kyuoeth am ym pen, y erchi im ymdeu ac wynt, a rodi dewis im, ac uynet. Ac yna yn y kyuyng gynghor, y causant gwneuthur ystauell haearn oll; a gwedy bot y barawt yr ystauell, dyuyn a oed o of yn Iwerdon yno, o'r a oed o perchen geuel a mwrthwl, a pheri gossot kyuuch a chrib yr ystauell

-----  
branwen uerch lyr

o lo, a pheri guassanaethu [47] yn diwall o uwyt a llyn amant, ar y wreic, a'y gwr, a'y phlant. A phan wybuwyf eu medwi wynteu, y dechreuwyf kymyscu y tan a'r glo am ben yr ystauell, a chwythu y megineu a oed wedy eu gossot yg kyloch y ty, a gwr a pob dwy uegin, a dechreu chwythu y megineu yny uyd y ty yn burwen am eu penn. Ac yna y bu y kynghor ganthant hwy ymherued llawr yr ystauell; ac yd arhoses ef yny uyd y pleit haearn yn wenn. Ac rac diruawr wres y kyrcwys y bleit a'e yscwyd a'y tharaw gantaw allan, ac yn y ol ynteu y wreic. A heb ny dieghis odyna namyn ef a'e wreic. Ac yna o'm tebygu i, Arglwyd," heb y Matholwch wrth Uendigeituran, "y doeth ef drwod attat ti," "Yna dicer," heb ynteu, "y doeth yma, ac y roes y peir y minheu." "Pa delw, Arglwyd, yd erbynneisti wynteu?" "Eu rannu ym pob lle yn y kyuoeth, ac y maent yn llluossuc, ac yn dyrchauel ym pob lle, ac yn cadarnhau y uann y bythont, o wyr ac aruod goreu a welas neb."

Dilit ymddan a wnaethant y nos honno, tra uu da ganthant, a cherd a chyuedach. A phan welsant uot yn llessach udunt uynet y gyscu noc eisted a wei hwy, y gyscu yd aethant. Ac yuelly y treulyssant y wled honno drwy digriuwch. Ac [48] yn niwed hynny, y kyrcwynnwys Matholwch, a Branwen y gyt ac ef, parth ac Iwerdon. A hynny o fbermenel y kyrcwynnwysant teir llong ar dec, ac y doethant hyt yn Iwerdon.

Yn Iwerdon, diruawr lywenyd a uu wrthant. Ny doey wr mawr, na gwreic da yn Iwerdon, e ymw[e]let a Branwen, ni rodei hi ac cae, ac modrwy, ac teyrndlws cadwedid ydau, a uel arbennic y welet yn ymnet o ymdeith. Ac ynyso hynny, y ulwydyn honno a duc hi yn glotawr, a hwyf delediw a duc o glot a chedymdeithon. Ac yn hynny, beichogi a damweinwys idi y gael. A guedy treulaw yr amseroyd dylyedus, mab a anet idi. Sef enw a dodet ar y mab, Guern uab Matholwch. Rodi y mab ar uaeth a wnaethpwyf ar un lle goreu y wyr yn Iwerdon.

A hynny yn yr eil ulwydyn, llyma ymodwri yn Iwerdon am y guaraudyd a gawssai Matholwch yg Kymry, a'r somm a wnaethoedid idaw am y ueirch. A hynny y urodyr maeth, a'r gwyr nessaf gantaw, yn lliwaw idaw hynny, a heb y gelu. A nachaf y dygyuor yn Iwerdon hyt nat oed lonyd idaw ony chasi dial y sarahet. Sef dial a wnaethant, gyrru Branwen o un ystauell ac ef, a'y chymell y bobi yn y llys, a pheri y'r kygyd, gwedy bei yn dryllaw kic, dyuot idi a tharaw bonelust arnel beunyed. Ac yuelly [49] y gwnaethpwyf y foen. "E," Arglwyd," heb y wyr wrth Uatholwch, "par weithon wahard y llongeu, a'r yscraffeu, a'r corygeu, ual nat el heb y Gymry; ac a del yma o Gymry, carcharu wynt ac na at trachefyn, rac gyfbot hynn." Ac ar hynny y diskynnyssant.

Blwynyded nit llei no their, y buant yuelly. Ac yn hynny meithryn ederyn drydwen a wnaeth hithou ar dal y noe gyt a hi, a gyscu ieith idi, a menegi y'r ederyn y ryw wr oed y brawt. A dwyn llythyr y poeneu a'r

-----  
branwen uerch lyr

amharch a oed arnei hitheu. A'r llythyr a rwyngwyf am uon esgyll yr ederyn, a'y amon parth a Chymry. A'r ederyn a doeth y'r ynys honn. Sef lle y cauas Uendigeiduran, yg Kaer Seint yn Arnon, yn dadleu idaw dydgweith. A diskynna ar e yscwyd, a garwau y phluf, yny arganuwyf y llythyr, ac adnabot meithryn yr ederyn yg kyuanedd. Ac yna kymryt y llythyr a'y edrych. A phan darllewyf y llythyr, doluryaw a wnaeth o glybot y poen oed ar Uranwen, a dechreu o'r lle hwnnw peri amon kennadeu y dygyuoryaw yr ynys honn y gyt. Ac yna y peris ef dyuot llwyr wys pedeir degwlat a seithugeint hyt attaw, ac e hun cwynaw wrth hynny, bot y poen a oed ar y chwaer. Ac yna dywyssogyon yma, a Chradawc uab Bran y benhaf, a eu seith [50] marchawc. Yn Edeirnon yd edewit y gwyr hynny, ac o achaws hynny y dodet Seith Marchawc ar y dref. Sef seithwyr odynt, Gradawc uab Bran, ac Buehyd Hir, ac Unic Glew Yscwyd, ac Idic uab Anarawc Walltgrwm, a Fodor uab Eruyll, ac Wlch Minasgwrm, a Llashar uab Llayssar Llaesgygwyt, a Phendaran Dyuet yn was ieuanc gyt ac wy. Y seith hynny a drigwys yn seith kynuassat y synyaw ar yr ynys honn, a Chradawc uab Bran yn benhaf kynweisyat arunt.

Bendigeiduran, a'r ymuer a dywedysan ni, a hwylyssant parth ac Iwerdon, ac nyt oed uawr y weilgi, yna y ueis yd aeth ef. Nyt oed namyn dwy auon, Lli ac Archan y gelwit. A guedy hynny yd anlaws y weilgi, pan oreskynwys y weilgi y tyrnassod. Ac yna y kerdwys ef ac a oed o gerd arwest ar y geuyn e hun, a chyrrhu tir Iwerdon.

A meicheit Matholwch a odynt ar lan y weilgi dydgweith, yn troi yg kylch eu moch. Ac o achaws e uremynt a welsant ar y weilgi, wy a doethant at Matholwch. "Arglwyd," heb wy, "henych guell." "Daw a rodo da ywch," heb ef, "a chwedleu genhwch?" "Arglwyd," heb wy, "mae genhym hi chwedleu ryued; coet rywelsom ar y weilgi, yn y lle ny welsan eirycoet un prenn." "Llyna beth eres," heb ef. "A welwch chwi dim namyn hynny?" "Gwelw, Arglwyd," heb wy, "mynd [51] mawr gyr llaw y coet, a hwnnw ar gerdet; ac eskeir aruchel ar y mynyd, a llynn o bob parth y'r eskeir; a'r coet, a'r mynyd, a phob peth oll o hynny ar gerdet." "Ie," heb ynteu, "nyt oes heb yma a wypo dim y wrth hynny, onys gwyr Branwen. Gouynnwch idi." Kennadeu a aeth at Uranwen. "Arglwydes," heb wy, "beth dybygy di yw hynny?" "Kyn ny bwyt drwod o glybot uym poen a'm amharch." "Beth yw y coet a welat ar y mor?" heb wy. "Gwermenni llongeu, a hwybrenni," heb hi. "Och!" heb wy, "beth

-----  
branwen uerch Iyr

oed y mynyd a welit gan ystlys y llongeu?" "Bendigeiduran uym brawt," heb hi, "oed hwnnw, yn dyuot y ueis. Nyt oed long y kynganeid ef yndi." "Beth oed yr eskeir aruchel a'r llynn o bob parth y'r eskeir?" "Ef," heb hi, "yn edrych ar yr ynys honn, lliydawc yw. Y deu lygat ef o bob parth y drwyn yw y dwy llynn o bob parth y'r eskeir."

Ac yna dygyuor holl wyr ymlad Iwerdon a wnaethpwyf y gyt, a'r holl uorbennyd yn gyflym, a chynghor a gymerwyf. "Arglwyd," heb y wyrda wrth Uatholwch, "nyt oes gynghor namyn kilyaw drwy Linon (auon oed yn Iwerdon), a gadu Llinon y rot ac ef, a thorri y bont ysyd ar yr auon. [52] A mein sugyn ysyd ygwaelawt yr auon, ny eill na llong na llestyr arnei." Wyt a glylyssant drwy yr auon, ac a torryssant y bont.

Bendigeiduran a doeth y'r tir, a llynghes y gyt ac ef, parth a glann yr auon. "Arglwyd," heb y wyrda, "ti a wdost kynnedyl yr auon, ny eill heb ymet drwydi, nyt oes bont arnei hitheu. Mae dy gynghor am bont?" heb wy. "Nit oes," heb ynteu, "namyn a uo penn bit pont. Mi a uydaf pont," heb ef. Ac yna gyntaf y dywetpwyf y geir hwnnw, ac y diharebir etwa onaw.

Ac yna guedy gorwed ohonaw ef ar traws yr auon, y byrwyf olwydeu arnaw ef, ac yd aeth y luod ef ar y draws ef drwod. Ar hynny, gyt ac y kyndes ef, llym gennadeu Matholwch yn dyuot attaw ef, ac yn kyuaroch guell idaw, ac yn y annerch y gan Uatholwch y guathrachwr, ac yn menegi o'e uod ef na haeddi arnaw ef namyn da. "Ac y mae Matholwch yn rodi brenhinasth Iwerdon y Wern uab Matholwch, dy nei ditheu, uab dy chwaer, ac yn y ystynnu y'th wyd di, yn lle y cam a'r odyant a wnaethpwyf y Uranwen. Ac yn y lle y mynych ditheu, ay yma, ay yn Inys y Kedym, gossymdeitha Uatholwch." "Ie," heb ynteu Uendigeiduran, "ony allaf i ue hun cael y urenhinasth, ac aduyd ys kymeraf gynghor [53] am ych kennadwri chwi. O kyn hyt ban del angen, ry cheffwch y genhyf i attep." "Ie," heb ynteu, "yr attep goreu a gaffom ninheu, attat ti y down ac ef, ac aro ditheu yn kennadwri ninheu." "Arhoaf," heb ef, "o dowch yn ehgyr."

Y kennadeu a gyrchysant raedu, ac at Uatholwch y doethant. "Arglwyd," heb wy, "kyweira attep a uo gwel at Uendigeiduran. Ny warandawei dia o'r attep a aeth y genhym ni attaw ef." "A wyr," heb y Matholwch, "mae ych gynghor chwi?" "Arglwyd," heb wy, "nyt oes it gynghor namyn un. Ni enghis ef y mywn ty eirycoet," heb wy. "Gwna ty," heb wy, "o'y anryded ef, y ganho ef a gwyr Inys y Kedym yn y neillparth y'r ty, a thitheu a'th lu yn y parth arall. A doru dy urenhinasth yn y ewyllus, a gwra idaw. Ac o enryded gwmeuthur y ty," heb wy, "peth ny chaus eirycoet ty y ganhei yndaw. Ac a tangwoda a thi." A'r kennadeu a doethant a'r gennadwri honno gantant at Uendigeiduran; ac ynteu a gymerth gynghor. Sef a gauas yn y gynghor, kymryt hynny; a thrwy

-----  
branwen uerch Iyr

gynghor Branwen uu hymny oll, ac rac llygru y wlat oed genti hitheu hymny.

E tangneued a gyweirwyt, a'r ty a adeillwyt yn uawr ac yn braf. Ac ystryw a wnaeth y Gwydyl. Sef ystryw a wnaethant, dodi guanas o bop parth [54] y bop colouyn o cant colouyn oed yn y ty, a dodi boly croyn ar bop guanas, a gwr aruawc yn pob vn o honunt. Sef a wnaeth Efnysyen dyuot ymlaen llu Ynys y Kedyrn y mym, ac edrych golygon orwyllt antrugarawc ar hyt y ty. Ac arganwot y bolyeu croyn a wnaeth ar hyt y pyst. "Beth yssyd yn y boly hwnn?" heb ef, wr un o'r Gwydyl. "Blawt, eneit," heb ef. Sef a wnaeth ynteu, y deimlaw hyt ban gauas y benn, a guascu y benn, yny glyw y uyssed yn ymanodi yn y ureicheill drwy yr ascwrn. Ac adaw hwnnw, a dodi y law ar un arall a gouyn, "Beth yssyd yma?" "Blawt," medei y Gwydel. Sef a wnaeth ynteu yr un guare a fawb ohonunt, nat edewis ef wr byw o'r hollwyr o'r deu canwr eithyr un. A dyuot at hwnnw, a gouyn, "Beth yssyd yma?" "Blawt, eneit," heb y Gwydel. Sef a wnaeth ynteu, y deimlaw ef yny gauas y benn, ac ual y guascassei benneu y rei creill, guascu penn hwnnw. Sef y clywei arueu am benn hwnnw. Nyt ymedewis ef a hwnnw, yny ladawd. Ac yna canu englyn, -

Yssit yn y boly hwnn emryw ulawt,  
Keimeit, kynniuyseit, diskynneit yn trin,  
Rac kydywr cad barawt.

Ac ar hymny y dothw y niuroed y'r ty. Ac y doeth gwyr Ynys Iwer[55]don y'r ty o'r neill parth, a gwyr Ynys y Kedyrn o'r parth arall. Ac yn gynsbrwydet ac yd eisteddyssant, y bu daundeb y rydunt, ac yd ystynnwyt y urenhinaeth y'r mab.

Ac yna, guedy dardot y tangneued, galw o Uendigeiduran y mab attaw. Y gan Uendigeiduran y kyrochawd y mab at Unawydan, a phawb o'r a'e guelei yn y ganu. E gan Unawydan y gelwis Nyssyen uab Eurosswyd y mab attaw. Y mab a neti attaw yn diryon. "Pahan," heb yr Efnysyen, "na daw uy nei uab uy chwaer attaf i? Kyn ny bei urenhin ar Iwerdon, da oed genhyf i yntiryoni a'r mab." "Aet yn llawen," heb y Bendigeiduran. Y mab a aeth attaw yn llawen. "Y Duw y dygaf uyg kyffes," heb ynteu yn y uedwl, "ys anhebic a gyflauan gan y tylwyth y wneuth a wnaef i yr awr honn." A chyuoedi y uynyd, a chymryt y mab erwyd y traet, a heb ohir, na chael o dyn yn y ty gauael arnaw, yny want y mab yn wysc y benn yn y gynneu. A fan welas Uranwen y mab yn boeth yn y tan, hi a gynsyrwys uwrw neit yn y tan, o'r lle yd oed yn eistedd rwnng y deu uroder. A chael o Uendigeiduran hi yn y neill law, a'y taresan yn y llaw arall. Ac yna, ymgwyot [56] o bawb ar hyt y ty. A llyna y godwrw mwyhaf a uu gan yniuer un ty, pawb yn kymryt y arueu. Ac yna y dywot Nordwyd Tyllyon, "Guern gwngwch uiwch Uordwyt Tyllyon." Ac yn yd aeth pawb yn pen yr arueu, y kynhelis Bendigeiduran Uranwen y rwnng y taryan a'y yscwyd.

Ac yna y dechrewis y Gwydyl kynneu tan dan y peir daдени. Ac yna y

-----  
branwen uerch lyr  
-----

byrywyt y kalaned yn y peir, yny ued yn llawn, ac y kyuoodyn tranoeth y bore yn wyr ymlad kystal a chyat, eithyr na ellynt dywedut. Ac yna pan welas Efnysyen y kalaned heb enni yn un lle o wyr Ynys y Kedyrn, y dywot yn y uedwl, "Oy a Duw," heb ef, "guae ui uy got yn achaws y'r wydwic honn o wyr Ynys y Kedyrn; a meul ymi," heb ef, "ony cheissaf i waret rac hynn." Ac ymedyryaw ymlith kalaned y Gwydyl, a dyuot dau Wydel uonllwm idaw, a'y uwrw yn y peir yn rith Gwydel. Emystyanna idaw ynteu yn y peir, yny dyrr y peir yn pedwar dryll, ac yny dyrr y galon ynteu. Ac o hymny y bu y meint goruot a uu y wyr Ynys y Kedyrn. Ny bu oruot o hymny eithyr diang seithwyr, a brathu Bendigeiduran yn y traet a guernynwawc.

Sef seithwyr a dienghis, Pryderi, Manawydan, Gwlisu Eil Taran, Ta[57] yessin, ac Inawc, Grudyu uab Maryel, Heilyn uab Gwyn Hen.

Ac yna y peris Bendigeiduran llad y benn. "A chymerwch chwi y penn," heb ef, "a dygwch hyt y Gwynurya yn Llundein, a chiledwch a'y wyneb ar Freino ef. A chwi a uydwch ar y ford yn hir; yn Harlech y bydwh seith mlyned ar ginyaw, ac Adar Riannon y cam ywch. A'r penn a uyd kystal genwch y gedymdeithas ac y bu oreu gehnwch, ban uu arnaf i earyoet. Ac y Gwales ym Fenuro y bydwh pedwarageint mlyned. Ac yny agoroch y drws parth ac Aber Henuelen, y tu ar Geryw, y gellwch uot yno a'r penn yn dilwgyr genwch. Ac o'r pan agoroch y drws hwnnw, ny ellwch uot yno. Kyrochwch Lundein y gladu y penn. A chyrochwch chwi raeoch drwod." Ac yna y llas y benn ef, ac y kychnyasant a'r penn gantu drwod, y seithwyr hynn, a Branwen yn wythuet. Ac y Aber Alau yn Talebolyon y doethant y'r tir. Ac yna eisted a wnaethant, a gorfows. Edrych oheni hitheu ar Iwerdon, ac ar Ynys y Kedyrn, a welei ohonunt. "Oy a uab Duw," heb hi, "guae ui o'm ganedigasth. Da a dwy ynys a diffaithwyt o'm achaws i." A dodi ucheneit uawr, a thorri y chalon ar hymny. A gwneuthur bed petruel i'ni, a'e chladu yno yglan Alaw.

Ac ar hymny, ker[58]det a wnaeth y seithwyr parth a Harlech, a'r penn genthunt. Val y bydant y kordet, llyma gyweithyd yn kyuaruot ac wynt, o wyr a gwaged. "A oes genwch chwi chwedieu?" heb y Manawydan. "Nac oes," heb wynt, "onyt goresgyn o Gaswallaw uab Beli Ynys y Kedyrn, a'y uot yn urenhin coronaw yn Llundein." "Pa daru," heb wynteu, "y Gradawc uab Bran, a'r seithwyr a edewit y gyt ac ef yn yr yny honn?" "Dyuot Caswallaw am eu penn, a llad y chwgywyr, a thorri ohonaw ynteu Gradawc y galon o anuyget, am welet y cledyf yn llad y wyr, ac na wydat pry a'e lladei. Caswallaw a daroed idaw wiscau llen hut andanaw, ac yn welei heb ef yn llad y gwyr, nawn y cledyf. Ny uynhei Caswallaw y lad ynteu, y rei uab y gwynnderw oed. A hwnnw uu y trydyd dyn a torres y gallon o anuyget. Pendarar Dyust, a oed yn was ieuang gyt a'r seithwyr, a dienghis y'r coeb," heb wynt.

-----  
branwen uerch lyr  
-----

Ac yna y kyrcyssant wynteu Hardlech, ac y dechreussant eisted, ac y dechreuyt ymddiwallu o uwyt a llynn. Ac y [gyt ac y] dechreuyssant wynteu uwyt ac yuet, dyuot tri ederyn, a dechreu canu udunt ryw gerl, ac oc a glywssynt o gerl, diuwyn oed pob un iwrthi hi. A fell dremynt oed udunt y guelet uch benn y weilgi allan. [59] A chyn amlyket oed udunt wy a chyn bydynt gyt ac wy. Ac ar hynny o ginyaw y buant seith mlyned.

Ac yna penn y seithuet ulwydyn, y kyrcwynyssant parth a Gualas ym Fenuro. Ac yno yd oed udunt lle teg brenhineid uch benn y weilgi, ac yneud uawr oed, y'r neuad y kyrcyssant. A deu drws a welint yn agoret; y trydyd drws oed y gayat, yr hmn y tu a Chernyw. "Weldy raeo," heb y Manawdian, "y drws ny dylwm ni y agori." A'r nos honno y buant yno yn diwall, ac yn digrif ganthunt. Ac yr a welant o oust yn y gwyl, ac yr a gewssant e hun, ny doey gof udunt wy din, nac o hynny, nac o alar yn y byt. Ac yno y treulysant y pedwarugeint mlyned hnt na wybuant wy eiryot dwyn yspeit digriuach na huurydach no honno. Nt oed anesmythach, nac adnabot o un ar y gilyd y uot yn hynny o amser, no fan doethan yno. Nit oed anesmythach ganthunt wynte gyduot y penn yna, no phan uassei Uendigeiduran yn uyw gyd ac wynt. Ac o achaws y pedwarugeint mlyned hynny y gelwit Ysbydant Urdaul Benn. (Ysbydant Uranwen a Matholwech oed yr honn yd aethpwynt e Iwerdon).

Sef a wnaeth Heillyn uab Gwyn dydgueth. "Meuyl ar uy maryf i," heb ef, "onyt agoraf y [60] drws, e wybot ay gwir a dywedir am hynny." Agori y drws a wnaeth, ac edrych ar Gernyw, ac ar Aber Henuelen. A phan edrychwys, yd oed yn gyn hyspysset ganthunt y gyniuer collet a gollyssant eiryot, a'r gyniuer car a chedymdeith a gollyssant, a'r gyniuer drwe a dothod udunt, a chyt bei yno y kyuarffei ac wynt; ac yn benhaf oll am eu harglwyd. Ac o'r guawr honno, ny allyssant wy orfowys namyn kyrcu a'r penn parth a Llundein. Fa hnt bynnac y bydynt ar y ford, wynt a doethant hnt yn Llundein, ac a gladyssant y penn yn y Gwynuryn.

A hwnnw trydyd matoud ban gudywyt, a'r trydyd anuat datcud pann datcudywyt; cany doey ormes byth drwy uor y'r ynys honn, tra uel y penn yn y cud hwnnw. A hynny a dyweit y kyuarwydyd hwnn eu kyfranc wy. "Y gyrr a gychwynwys o Iwerdon," yw hwnnw.

En Iwerdon hnt edewit dyn byw, namyn pump gwaged beichawc ymywn gogof yn diffeithwech Iwerdon. A'r pump wraged hynny, yn yr un kyfnot, a anet udunt pun meib. A'r pym meib hynny a uagysant, hnt ban uuant weisson mawr, ac yny uedyllyssant am wraged, ac yny un damnet gantunt eu cafael. Ac yna, kyseu pob un lau heb lau [61] gan uam y gilid, a gwledychu y wlat a'y chyanhebu, a'y rannu y rydunt yll pump. Ac o achaws y ranyat hwnnw y gelwir etwan pump rann Iwerdon. Ac edrych y wlat a wnaethant ford y buassei yr aerueu, a chael eur, ac aryant, yny ytoedynt yn gwoethawc.

-----  
branwen uerch lyr  
-----

A llyna ual y teruyna y geing honn o'r Mabinyogi, o achaws Paluawt Branwen; yr honn a uu tryded anuat paluawt yn yr ynys honn; ac o achaws Yspadawt Uran, pan aeth yniuer pedeir deowlat a seithugeint e Iwerdon, y dial Paluawt Branwen; ac am y ginyaw yn Hardlech seith mlyned; ac am Ysbydant Benn pedwarugeint mlyned.

-----  
branwen uerch lyr  
-----

MANAWYDAN UAB LLYR.

GUEDY daruot y'r seithwyr a dywedysam ni chot, cladu penn  
Bendigeiduran yn y Gwynnryn yn Llundain, a'y wyneb ar Freine, edrych a wnaeth  
Manawydan ar y dref yn Llundain, ac ar y gedymdeithon, a dodi ucheneit uawr,  
a chymryt diruawr alar a hiraeth yndaw.

"Cy a Duw Hollgyuoethawc, guae ui," heb ef, "nyt oes neb heb le idaw  
heno namyn mi." "Arlwyd," heb y Pryderi, "na uit kyn drymhet genhyt a hynny.  
Dy geuynderw yssyd urenhin yn Ynys y Kedym; a chyn gwnef gamau it," heb ef,  
"ny buost hawlwr tir a dayar ei[62]rycoet. Trydyd lledyf unben wyt." "Ie,"  
heb ef, "kyl boet keuynderw y mi y gwr hwnw, goathrist yw genhyt i gwalet neb  
yn lle Bendigeiduran uy mrawt, ac ny allaf uot yn llawen yn un ty ac ef." "A  
wney ditheu gynghor arall?" heb y Pryderi. "Reit oed im wrth gynghor," heb  
ef, "a pha gynghor yw hwnw?" "Seith cantref Dyuet yr edwit y mi," heb y  
Pryderi, "a Riannon uy mam yssyd ync. Mi a rodaf it honno, a mediant y seith  
cantref genthi. A chyny bei itti o gyuoeth namyn y seith cantref hynny, nyt oes  
seith cantref well noc wy. Kicua, uerch Wyn Gloyw, yw uy gwrsic inheu," heb  
ef. "A chyn bo ewwedigaeth y kyuoeth y mi, bit y mwynant y ti a Riannon. A  
phei mynhut gyuoeth eiryoet, aduyd y caffut ti [waeth] hwnw." "Na uynhaf,  
unben," heb ef, "Duw a dalo it dy gydymdeithas." "E gedymdeithas oreu a  
allwyf i, yti y byd, os mynry." "Mynhaf, oneit," heb ef. "Duw a dalo it.  
A mi a af gyt a thi y edrych Riannon, ac y edrych y kyuoeth." "Iawn a wney,"  
heb ynteu. "Mi a debygaf na werendeweist eiryoet ar ymdidanwreic well no  
hi. Er amser y bu hitheu yn y dewred, ny bu wreic delediwach no hi, ac stwa  
ny bydy amocdlawm y phryt."

Vynt a gerdassant racdunt. A pha hyt [63] bynnac y bydynt ar y ford,  
wynt a doethant y Dyuet. Gwled darparedic oed udunt erbyn eu dyuot yn Arberth,  
a Riannon a Chicua wedy y harlwyaw.

Ac yna dechreu kydeisted ac ymdidan o Manawydan a Riannon; ac o'r  
ymdidan tirioni a wnaeth y uryt a'y uedwl wrthi, a hoffi yn y uedwl na  
welsei eiryoed wreic digonach y theket a'y thelediwet no hi.

-----  
manawydan uab llyr  
-----

"Pryderi," heb ef, "mi a uydaf wrth a dywedeisti." "Pa dywedwydat oed hwnnw?" heb y Riannon "Arglwydes," heb ef Pryderi, "mi a'th roessum yn wreic y Unawydan uab Llyr." "A minheu a uydaf wrth hynny yn llawen," heb y Riannon, "Llawen yw genhyf inheu," heb y Manawydan, "a Duw a dalu y'r gwr yssyd yn rodi i minheu y gedymdeithas mor diflois a hynny". Kyn daruot y wled honno, y kyscwyf genti.

"Ar ny deryw o'r wled," heb y Pryderi, "treulwch chw i minheu a af y hebrwng uy gwrogaeth y Gaswallawn uab Beli hyt yn Lloegyrr." "Arglwyd," heb y Riannon, "yg Kent y mae Caswallawn, a thi a elly treulaw y wled honn a'y arhos a uo nes." "Ninheu a'y arhown," heb ef. A'r wled honno a dreulyssant, a dechreu a wnaethant kylchaw Dyuet, a'y hela, a chymryt eu digriuwch.

Ac wrth rodyaw y wlat ny welsynt eiryotet wlat [64] gyuanhedach no hi, na heldir well, nac amlach y mel na'y physcawt no hi. Ac yn hynny tyuu kedymdeithas y rydunt yll pedwar, hyt na mynnei yr un uot heb y giliid na dyd na nos. Ac ymysc hynny, ef a aeth at Caswallawn hyt yn Rytychen, y hebrwng y wrogaeth idaw. A diruawr lywenyd a uu yn y erbyn yno, a diolwch idaw hebrwng y wrogaeth idaw. A guedy ymchwelut, kymryt eu gwledeu ac eu hesmwythder a orugant Pryderi a Manawydan.

A dechreu gwled a orugant yn Arberth, canys prif lys oed, ac o honoi y dechreuit pob anryded. A guedy y bwyta kyntaf y nos honno, tra uei y gwassanaethwyr yn bwyta, kyuodi allan a orugant, a chyrohu Gorssed Arberth a wnaethant yll pedwar, ac yniuer gyt ac wynt. Ac ual y bydant yn eisted yuelli llyma dwrwf, a chan usint y twrwf, llyma gawat o nywl yn dyuot hyt na chanheed yr un chomunt wy y giliid. Ac yn ol y nywl, llyma yn goleuhau pob lle. A phan edrychysant y ford y guelyn y preideu, a'r anreithu, a'r kyuanhed kyn no hynny, ny welynt neb ryw dim, na thy, nac anieil, na maw, na than, na dyn, na chyuanhed, eithyr tei y llys yn wac, diffeith, anghyuanhed, heb dyn, heb uil yndant; eu kedymdeithon e hun [65] wedy eu colli, heb wybot dim y wrthunt, onyt wyll pedwar.

"Oy a Arglwyd Duw," heb y Manawydan, "mae yniuer y llys, ac yn anniuer ninheu namyn hynn? Awm y edrych." Dyuot y'r yneud a wnaethant; nit oed kegin, nit oed namyn diffeithwch.

Dechreu a wnaethant yll pedwar treulaw y wled, a hela a wnaethant, a chymryt eu digriuwch; a dechreu a wnaeth pob un o honunt rodyaw y wlat a'r kyuoeth y edrych a welynt ay ty ay kyuanhed; a neb ryw dim ny welynt eithyr guyldwlyn. A guedy treulaw eu gwled ac eu darmerth o honunt, dechreu a

-----  
manawydan uab llyr

wnaethant ymborth ar kic hela, a physcawt, a bydaeu. Ac yuelli blwydyn a'r eil a dreulyssant yn digrif gantunt. Ac yn y diwed, dygyaw a wnaethant. "Dioer," heb y Manawydan, "ny bydwn ual hynn. Kyrchwn Lloygyr, a cheisswn greft y caffom yn ymborth."

Kyrchu Lloygyr a orugant, a dyuot hyt yn Henford, a chymryt arunt gwneuthur kyfrwyu. A dechreu a wnaeth ef Unawydan llunyaw corieu, ac eu lliaw ar y wed y guelsei gan Lassar Llaes Gygnwyt a chalch llassar, a gwneuthur calch llassar raddaw, ual y gwmathod y gwr arall. Ar wrth hynny y gelwir etwa Calch Llassar, am y wneuthur o Lassar Llaes Gygnwyt. Ac o'r gueith hwnnw, tra [66] geffit gan Unawydan, ny phrynit gan gyfrwyd dros wyneb Henford, na choryf, na chyfrwy, ac yny adnabu pob un o'r kyfrwydion y uot yn colli o'y henill, ac ny frynit dim ganthunt, onyt guedy na cheffit gan Unawydan. Ac yn hynny, ymgymullaw y gyt o honunt, a duunaw ar y lad ef a'y gedymdeith. Ac yn hynny rybud a gawssont wynteu, a chymryt kynghor am adaw y dref.

"E rof i a Duw," heb y Pryderi, "ni chynghoraf i adaw y dref, namyn llad y tayogeu racco." "Nac ef," heb y Manawydan, "bei ymladem ni ac wyntwy, clot drwo uydei arman, ac yn carcharu a wneit. Ys guell in," heb ef, "kyrchu tref arall e ymossydeithaw yndi."

Ac yna kyrchu dinas arall a wnaethant yll pedwar. "Pa geluydyt," heb y Pryderi, "a gymerwn ni arman?" "Gwawn taryaneu," heb y Manawydan. "A wdom ninheu dim y wrth hynny?" heb y Pryderi. "Ni a'y prouwn," heb ynteu. Dechreu gwneuthur gueith y taryaneu, eu llunyaw ar weith taryaneu da welsynt, a dodi y lliaw a dodyssynt ar y kyfrwyu arunt.

A'r gweith hwnnw a lwydws raddunt, hyt na phrynit taryan yn yr holl dref, onyt guedy na cheffit gantunt wy. Kyflwm oed y gueith wynteu, a diuessur a w[67]neynt ac yuelli y buant yny dygywys yw kytdrefwyr raddunt, ac yny dduyysant er geissaw eu llad. Rybud a doeth udunt wynteu; a chybot bot y gwyr ac y bryt ar eu dienydyaw.

"Pryderi," heb y Manawydan, "y mae y gwyr hynn yn mynnu yn diuetha." "Ny chymerwn ninheu y gan y tayogeu hynny. Awm adanunt a lladwn." "Nac ef," heb ynteu, "Caswallawn a glywei hynny, a'e wyr, a rewin uydem. Kyrchu tref arall a wnam." Vynt a doethant y dref arall.

"Pa geluydyt yd awni wrthi?" heb y Manawydan "Yr honn y mynych, o'r a wdam," heb y Pryderi. "Nac ef," heb ynteu, "gwnam grydyaeth. Ni byd o galhon gan grydion nac ymlad a ni nac ymwarauun." "Ny wna i dim y wrth honno," heb y Pryderi. "Mi a'y gwn," heb y Manawydan, "a mi a dysoaf it wniaw; ac nit ymyrrwn ar gyweiraw lledyr, namyn y brynu yn barawt, a gwneuthur yn gueith chonaw." Ac yna dechreu prynu y cordwal teccaf a gauas yn y dref,

-----  
manawydan uab llyr

ac amgen ledyr no hwnnw ny phrynei ef, eithyr lledyr guadneu. A dechreu a wnaeth ymgedymdeithassu a'r eurych goreu yn y dref, a pheri gwaegeu y'r eskidyau, ac euraw y gwaegeu, a synnyaw e hun ar hynny yny gwybu. Ac o'r achaws hwnnw, y gelwit ef yn tryded [68] eurgyd.

Tra geffit gantaw ef, nac eskit, na hossan, ny phrynit dim gan gryd yn yr holl dref. Sef a wnaeth y crydyon, adnabot bot eu hennill yn pallu udaw canys ual y llurwei Unawydan y gaeith, y gwnei Pryderi. Dyuot y crydyon, a chymryt kynghor; sef a gausant yn eu kynghor, duanaw ar eu llad. "Pryderi, heb y Manawydan, "y mae y guyr yn mynnu an llad." "Pam y kymerwn ninheu hynny gan y tayogeu lladron," heb y Pryderi, "namyn eu llad oll?" "Nac ef," heb y Manawydan, "nyt ymladwn ac wynt, ac ny bydwn yn Lloygyr bellach. Kyrochw parth a Dyuet, ac awn y hedrych."

Byhyt bynnac y buant ar y fford, wynt a doethant y Dyuet, ac Arberth a grychysant. A llad tan a wnaethant, a dechreu ymborth, a hela, a threulaw mi uelly, a chynnull eu cwn attant, a hela, a bot uelly yno ulwydyn.

A boregueith, kyuodi Pryderi a Manawydan y hela; a chyweiraw eu cwn, a mynet odieithyr y llys. Sef a wnaeth rei o'e cwn, kerlet o'e blaen, a mynet y berth uechan oed gyr eu llaw. Ac y gyt ac yd aant y'r berth, kilyaw y gyflw a cheginwrych mawr aruthyr ganthunt, ac ymchwelut at y guyr. "Nessawn," heb y Pryderi, "parth a'r berth, y edrych beth ysaid yndi." Nessau [69] parth a'r berth. Pan nesaant, llyma uaed oed clawerwynn yn kyuodi o'r berth; sef a oruc y cwn, o hyder y guyr, ruthraw idaw. Sef a wnaeth ynteu, adaw y berth, a chilyaw dalyw y wrth y guyr. Ac yny uei agos y guyr idaw, kyuarth a rodei y'r cwn, heb gilyaw yrthunt: a phan ynghai y guyr, y kilyei cilweith, ac y torrei gyuarth.

Ac yn ol y baed y kerdassant, yny welynt gaer uawr aruchel, a gaeith newy arnei, yn lle ny welsynt na maen, na gaeith eirycoet; a'r baed yn kyrcu yr gaer yn uuan, a'r cwn yn y ol. A guedy mynet y baed a'r cwn y'r gaer, ryuedi a wnaethant welet y gaer yn y lle ny welsynt eirycoet weith kyn no hynny, ac o ben yr orsed edrych a wnaethant, ac ymwarandaw a'r cwn.

Pa hyt bynnac y bydynt uelly, ny chlywynt un o'r cwn na dim y wrthunt. "Arglwyd," heb y Pryderi, "mi a af y'r gaer, y geissaw chwedleu y wrth y cwn." "Dioer," heb ynteu, "nyt da dy gynghor uynet y'r gaer. [Ny welsam ni y gaer] honn yma eirycoet. Ac o gwney uykynghor i nyt ey idi. A'r heb a dodes hut ar wlat, a beris bot y gaer yma." "Dioer," heb y Pryderi, "ny madeuaf i uyk kwn." Pa gynghor bynnac a gaffei ef y gan Unawydan, y gaer a gyrcwys ef. Pan doeth y'r gaer, na dyn, na mil, [70] na'r baed, na'r cwn, na thy, nac anhed, ny welei yn y gaer. Ef a welei, ual am gymherued llawr y gaer, fynnawn a gaeith o uasen marmor yn y chylch. Ac ar lann y fynnawn, cawg [eur en

manawydan uab llyr

rwymedic urth bedeir cadwyn, a hynny] uchbenn llech o uasen marmor, a'r cadwynau yn kyrcu yr awyr; a diben ny welei arnunt. Goraweni a wnaeth ynteu wrth decket yr eur, a dahet gaeith y cawc; a dyuot a wnaeth yn yd oed y cawc, ac ymauael ac ef. Ac y gyt ac yd ymauail a'r cawc, glynw y dwylaw wrth y cawc, a'y draet wrth y llech yd oed yn scuyll arnei, a dwyn y llyueryd y gantaw hyt na llei dywedut un geir. A scuyll a wnaeth yuelly.

A'e aros ynteu a wnaeth Manawydan hyt parth a diwed y dyd. A phrynhawn byrr, guedy bot yn diheu gantaw ef na chael chwedleu y wrth Pryderi nac y wrth y cwn, dyuot a oruc parth a'r llys. Pan daw y mynn, sef a wnaeth Riannon, edrych arnaw. "Mae," heb hi, "dy gedymdeith di, a'th cwn?" "Llyma," heb ynteu, "uyg kyfranc," a'e datcanu oll. "Dioer," heb y Riannon, "ys drwo a gedymdeith uosti, ac ys da a gedymdeith a golleisti." A chan y geir hwnnw mynet allan, ac y traws y mangassei ef uot y gwr a'r gaer, kyrcu a wnaeth hitheu.

[71] Porth y gaer a welas yn agoret; ny bu argel arnei. Ac y mynn y doeth, ac y gyt ac y doeth, arganuot Pryderi yn ymauael a'r cawc, a dyuot attaw. "Och, uy Arglwyd," heb hi, "beth a wney di yma?" Ac ymauael a'r cawc y gyt ac ef. Ac y gyt ac yd ymauail, glynw y dwylaw hitheu wrth y cawc, a'y deutoet wrth y llech, hyt na llei hitheu dywedut un geir. Ac ar hynny, gyt ac y bu nos, llyma dwyr arnunt, a chawat o nywl, a chan hynny difflannu y gaer, ac e ymaeith ac wynteu.

Pann welas Kicua, uerch Gwyn Gloew, gwreic Pryderi, nat oed yn y llys namyn hi a Manawydan, drygyruerth a wnaeth hyt nat oed well genti y byw no'y marw. Sef a wnaeth Manawydan, edrych ar hynny. "Dioer," heb ef, "cam yd wyt arnaw, os rac uy cwyn i y drygyruerthy di. Mi a rodaf Duw it uach it, na weleisti gedymdeith gywirach noc y keffy di ui, tra uynho Duw it uot uelly. Y rof a Duw, bei et uwni yn dechreu uy ieuengtit, mi a gadwn gywirdeb wrth Pryderi, ac yrot tithou mi a'y cadwm; ac na uit un cwyn arnat," heb ef. "E rof a Duw," heb ef, "tithou a goy y gedymdeithas a uynych y genyff i, herwyd uyk gallu i, [72] tra welho Duw yn bot yn y ddirwch hwnn a'r goial." "Duw a dalho it; hynny a debywn i." Ac yna kymryt llywynd ac ehoyndra o'r uorwyn o achaws hynny.

"Ie, eneit," heb y Manawydan, "nyt kyfle yni trigyaw yma. Yn cwn a gollyssen, ac ymborth ny allwn. Kyrochw Loegyrr. Hawssaf yw in ymborth yno." "Yn llawen, Arglwyd," heb hi, "a ni a wnam hynny." Y gyt y kerdysant parth a Lloygyr. "Arglwyd," heb hi, "pa greft a gymery di arnat? Kymer un lamweith." "Ny chymeraf i," heb ef, "namyn crydyaeth, ual y gwneuthum gynt." "Arglwyd," heb hi, "nyt hoff honno y glanet y wr kygnhilet, kyuard a thydi." "Wrth honno yd af ui," heb ef.

manawydan uab llyr

Dechreu y gelydyt a wnaeth, a chyweiraw y weith o'r coriwal teccaf a gauas yn y dref. Ac ual y dechreussant yn lle arall, dechreu gvaegeu y'r eskidydu o waegeu sureit, yny oed ouer a man gaeith holl grydyon y dref y wrth yr sidaw ef e hun. A thra gefiit y gantaw, nac eskit, na hossan, ni phrynit, gan ereill dim.

A blwydyn yuelli a dreulwys yno, ynyd oed y crydyon yn dala kynuigen a chynghorun wrthaw, ac yny doeth rybudyu idaw, [75] a manegi uot y crydyon a daunaw ar y led. "Arglwyd," heb y Kicua, "pam y diodeuir hyn gan y tayogeu?" "Nac ef," heb ynteu, "ni a nem eissoes y Dyuet."

Dyuet a gyrchysant. Sef a oruc Manawdan, pan gychwynmws parth a Dyuet dwyn beich o wenith gantaw, a chyrcu Arberth, a chyuanhedu yno. Ac nit oed dim digriuach gantaw no gwelet Arberth a'r tirogaeth y buassei yn hela, ef a Pryderi, a Riannon gyt a wynt.

Dechreu a wnaeth kynuainaw a hela gyscawt, a llydnod ar eu gual yno. Ac yn ol hynny dechreu ryuoryaw, ac yn ol hynny, heu groft, a'r eil a'r trydyd. Ac nachaf y guenith yn kyaut yn oreu yn y byt, a'e deir groft yn llwydaw yn un dwf, hyt na welsei dyn wenith tegach noc ef. Treulaw amseroed y ulwydyn a wnaeth. Nachaf y kynhaef yn dyuot; ac y edrych un o'e rofdeu y doeth. Nach honno yn aeduet. "Mi a ymhaef uedi honn auory," heb ef. Dyuet tra y gefyn y nos honno hyt yn Arberth.

E bore glas drancoeth, dyuot y ynnu medi y groft. Pan daw, nyt oed namyn y calaf yn llwm, wedy daruot torri pob un yn y doi y dywyssen o'r keleuyn, a mynet e ymdeith a'r twys yn hollawl, ac adaw y calaf yno yn llwm. Ryuedu hynny yn uawr [74] a wnaeth, a dyuot y edrych groft arall; nach honno yn aeduet. "Dicer," heb ef, "mi a ymhaef medi honn auory." A thrannoeth dyuot ar uedwl medi honno. A phan daw, nit oed dim namyn y calaf llwm. "Oy a Arglwyd Duw," heb ef, "pwy yssyd yn gorfen uyn diua i? A mi a'e gwmm; y heb a dechreuis uyn diua, yssyd yn y orffen ac a diuawys y wlad gyt a mi."

Dyuet y edrych y tryded groft. Pan doeth, ry welsei dyn wenith degach, a hwnnw yn aeduet. "Meuyl y mi," heb ef, "ony wylaf i heno. Ac duc yr yt arall a daw y dynn hwnn, a mi a wybydaf beth yw." A chymryt y arucu a wnaeth, a dechreu wylaf y groft. A manegi a wnaeth y Kicua hynny oll. "Ie," heb hi, "beth yssyd y'th uryt ti?" "Mi a wylaf y groft heno," heb ef. E wylaf y groft yd aeth. Ac ual y byd am hanner nos yuelli, nachaf twryf amyhaef yn y byd sef a wnaeth ynteu edrych. Llyma eliwlu y byd o lygot; a chyfrif na messur ry ellit ar hynny. Ac ny wydat yny uyd y llygot yn guan adan y groft, a phob un y drigyaw ar hyt y kylyuyn, ac yn y estawg genti, ac yn torri y dywyssen ac yn guan a'r tywys e ymdeith, ac yn adaw y calaf yno. Ac ni wydyt ef uot un

manawdan uab llyr

keleuyn yno ny bei lygoden am pob un. Ac a gymerynt eu hynt radunt ar tywys [75] gantunt. Ac yna rmg dichter a lliit, taraw ymplit y llygot a wnaeth. A smy noc ar y gwydbet, neu yr adar yn yr awyr, ny chydremei ef ar yr un chonunt wy; eithyr un a welsei yn androm, ual y tebygei na allei un pedestric. Yn ol honno y kerdwys ef, a'y dala a wnaeth, a'y dodi a wnaeth yn y uanec, ac a llinin rymaw genuu y uanec, a'y chadw gantaw, a chyrcu y llys.

Dyuet y'r ystauell yn yd oed Kicua, a goleuhau y tan, ac wrth y llinyn dodi y uanec ar y wanas a oruc. "Beth yssyd yna, Arglwyd?" heb y Kicua. "Lleidyf," heb ynteu, "a geueis yn lledratta arnaf," "Pa ryw leidyf, Arglwyd, a allut ti y dodi y'th uanec?" heb hi. "Llyma oll," heb ynteu, a manegi ual yr lygryssit ac y diuwyssit y grofdeu idaw, ac ual y doethant y llygot idaw y'r groft diwethaf yn y wyd. "Ac un chonunt oed androm, ac a deleis, ac yssyd yn y uanec, ac a grogaf inheu auory. Ac ym kyffes y Duw, bei as caffwm oll, mi a'y crogwm." "Arglwyd," heb hi, "diryued oed hynny. Ac eiswys anwymp yw gueleit gwr kyuard, kymoned, a thidi, yn crogi y ryw bryf hwnnw. A phef gwmlut iawn, nyt ymyrnt yn y pryf, namyn y elliwg e ymdeith." "Meuyl ymi," heb ef, "bei as caffwm i wy oll, onys crogwm [76] ac a geueis, mi a'e crogaf." "Ie, Arglwyd," heb hi, "nit oes achaws y mi y uot yn borth y'r pryf hwnnw, namyn goglyt ansyberwyt y ti. A gwma ditheu dy ewyllus, Arglwyd." "Bei gwypwn inheu defnyd yn y byt y dylut titheu bod yn borth idaw ef, mi a ywdw wrth dy gynghor am denaw; a chany gwmm, Arglwydes, medwl yw genhyf y diuetha." "A gwma ditheu yn llawen," heb hi.

Ac yna y kyrcwys ef Orssed Arberth, a'r llygoden gantaw, a sengi dwy forch yn y lle uchaf ar yr orssed. Ac ual y byd yuelli, llyma y gueleit ysgolheic yn dyuot attaw, a hen dillat hydreul, tilawt amdanaw. Ac neut oed seith mlyned kyn no hynny, yr pan welsei ef na dyn, na mil, eithyr y pedwardyn y buassynt y gyt, yny golles y deu. "Arglwyd," heb yr ysgolheic, "dyd da it." "Duw a rodo da it, a grayssaw wrthyt," heb ef. "Pan doy di, yr ysgolheic?" heb ef. "Pan doaf, Arglwyd, o Loygyr o ganu. A phahan y gouynhy di, Arglwyd?" heb ef. "Na welseis," heb ef, "neut seith mlyned, un dyn yma, onyt pedwar dyn diholeidic, a thitheu yr awr honn." "Ie, Arglwyd, mynet," heb ef, "drwy y wlat honn yd wyf inheu yr awr honn, parth a'm gwlat uy hun. A pha ryw weith yd wyte yndaw, Arglwyd?" "Crogi lleidyf a geueis yn lledratta arnaf," heb ef. "Ba ryw leidyf, Arglwyd?" [77] heb ef. "Pryf a wela i'th law di ual llygoden. A drwo y gueda y wr kyuard a thidi, ymodi pryf kyfryw a hwnnw. Gellwg e ymdeith ef." "Na elliynghaf, y rof a Duw," heb ynteu. "Yn lledratta y keueis ef, a chyfreith lleidyf a wnaef inheu ac ef, y grogi." "Arglwyd, a heb ynteu, "rac gueleit gwr kyuard a thidi yn y geueith hwnnw, punt a geueis i o gardotta, mi a'e rodaf it, a gellwg y pryf hwnnw e ymdeith." "Nac elliynghaf, y rof a Duw, nys guerthaf." "Gwma di, Arglwyd," heb ef. "Ony bei hagry gueleit gwr kyuard a thidi yn teinlaw y ryw bryf a hwnnw, ny'm tori." Ac e ymdeith yd aeth yr ysgolheic.

manawdan uab llyr

Val y byd ynteu yn doddi y dulath yn y fyrch, nachaf offeirat yn dyuot ataw, ar uarch yn gyweir. "Arglwyd, dyd da it," heb ef. "Duw a ro da it," heb y Manawydan, "a'th uendith." "Bendith Duw it. A pha ryw weith, Arglwyd, yd wyd yn y wneuthur?" "Crogi lleidyr a geueis yn lledratta arnaf," heb ef. "Pa ryw leidyr, Arglwyd?" heb ef. "Pryf," heb ynteu "ar ansawd llygoden, a lledratta a wnaeth arnaf, a dihenyd lleidyr a wmaf inheu arnaf ef." "Arglwyd, rac dy welet yn ymodi y pryf hwnnw, mi a'y prynaf. Ellwng ef." "Y Dyw y dywed uyghyffes, na'y werthu, na'y ollwng nas gwaf i." "Guir yw, Arglwyd, nyt guerth arnaf ef dim. [78] Rac dy welet ti yn ymhologi wrth y pryf hwnnw, mi a rodaf it deir punt, a gollwng ef e ymdeith," "Na uynhaf, y rof a Duw," heb ynteu, "un guerth, namyn yr hwnn a dyly, y grogi." "En llawen, Arglwyd, gwa dy uymwy." E ymdeith yd aeth yr offeirat. Sef a wnaeth ynteu, maglu y llinin am uynwyl y llygoden.

Ac ual yd oed yn y dyrchauael, llyma rwtter escob a welei a'y swmeru a'y yniuer; a'r escop e hun yn kyrcu parth ac attaw. Sef a wnaeth ynteu, gohir ar y weith. "Arglwyd escop," heb ef, "dy uendith." "Duw a rodo y uendith it," heb ef. "Pa ryw weith yd wyt ty yndaw?" "Crogi lleidyr a geueis yn lledratta arnaf," heb ef. "Fonyt llygoden," heb ynteu, "a welaf i y'th law di?" "Ie," heb ynteu, "a lleidyr uu hi arnaf i." "Ie," heb ynteu, "can doethwyf i ar diuetha y pryf hwnnw, mi a'e prynaf y ghenyt. Mi a rodaf seith punt it yrdaw, a rac gaelet gwr kyuard a thi yn diuetha pryf mor dielw a hwnnw, gollwng ef, a'r da a geffy ditheu." "Na ellynghaf, y rof a Duw," heb ynteu. "Kany's gollyng y'r hynny, mi a rodaf it pedairpunt ar ugeint o arwant parawt, a gollwng ef." "Na ellynghaf, dygaf y Duw uyghyffes, yr y gymeint arall," heb ef. "Canys collyng y'r hynny," heb ef, "mi a rodaf it a wely o uarch yn y [79] maes hwnn, a seith swmer ysgyd yma, ar y seith meirch y maent arunt." "Na uynhaf, y rof a Duw," heb ynteu. "Can y mynny hynny, gwa y guerth." "Gwaf," heb ynteu, "rydheu Riannon a Phryderi." "Ti a gehy hynny." "Na uynhaf, y rof a Duw." "Beth a uynhy ditheu?" "Guaret yr hut a'r lleidyr y ar seith cantref Dyuet." "Ti a geffy hynny heuyt a gellwng y llygoden." "Na ellynghaf, y rof a Duw," heb ef. "Gwybot a uynhaf pwy yw y llygoden." "Wy gwreic i yw hi, a phy ny bei hynny nys dillyngwn." "Pa gyffurf y doeth hi attaf i?" "Y herwa," heb ynteu. "Miui yw Llwyd uab Kil Coet, a mi a dodeis yr hut ar seith cantref Dyuet, ac y dial Guawl uab Clut, o gedymdeithas ac ef y dodeis i yr hut: ac ar Phryderi y dieleis

-----  
manawydan uab llyr  
-----

i guare broch yghot a Guawl uab Clut, pan y gwaeth Pwyll Penn Annwn; a hynny yn Llys Eueyd Hen y gwaeth o aglynghor. A guedy clybot dy uot yn kyuanhedu y wlat, y doeth uyn teulu attaf inheu, ac y erchi eu rithyaw yn llygot y diua dy yd, ac y doethant y nos gyntaf uyn teulu e hunein. A'r eil nos y doethant heuyt, ac y diuayssant y dyw grofd. A'r tryded nos y doeth uy gwreic a gwaged y llys attaf, y erchi im eu rithaw, ac y [80] rithais inheu. A beichawc oed hi. A phy na bei uoichawc hi, nis gordiwedut ti. A charys bu, a'y dala hi, mi a rodaf Phryderi a Riannon it, ac a waredaf yr hut a'r lleidyr y ar Dyuet. Minheu a uenegeis yti pwy yw hi, a gellwng hi."

"Na ellynghaf, y rof a Duw," heb ef. "Beth a uynny ditheu?" heb ef. "Llyna," heb ynteu, "a uynhaf, na bo hut uyth ar seith cantref Dyuet, ac na dotter." "Ti a geffy hynny," heb ef, "a gellwng hi." "Na ellynghaf, y rof a Duw," heb ef. "Beth a uynny ditheu?" heb ef, "Llyna," heb ef, "a uynhaf, na bo ymdiala ar Phryderi a Riannon, nac arnaf inheu, uyth am hynny." "Hynny oll a geffy. A dioer, da y medreist," heb ef. "Bei na metrut hynny," heb ef, "ef a doy am dy benn cwbyl o'r gout." "Ie," heb ynteu, "rac hynny y nodeis inheu." "A rytha weithon wy gwreic im." "Na rydhaaf, y rof a Duw, yny welwyf Phryderi a Riannon yn ryd gyt a mi." "Wely di yma ynteu yn dyuot," heb ef.

Ar hynny, llyma Phryderi a Riannon. Kyuodi a oruc ynteu yn eu herbyn, a'y graessaw, ac eisted y gyt. "A wrda, rytha uy ngwreic im weithon, ac neu ry geueist gwyl o'r a nodeist." "Ellynghaf yn llawen," heb ef.

Ac yna y gollwng hi, ac y trewis ynteu hi a hudlath, ac y datrithwys hi yn wreigyng deocaf a welsei heb.

"Edrych i'th [81] gylch ar y wlat," heb ef, "a thi a wely yr holl anhedu, a'r kyuanhed, ual y buant oreu." Ac yna kyuodi a oruc ynteu ac edrych. A phan edrych, ef a welei yr holl wlat yn gyuanhed, ac yn gyweir o'y holl alaucad a'y hanedau.

"Pa ryw wassaneth y bu Phryderi a Riannon yndaw?" heb ef. "Phryderi a uydei ac yrd porth uy llys i am y uynwyl, a Riannon a uydei a mynweireu yr essynn, wedy bydyn yn kywein gueir, am y mynwyll hitheu. Ac yuelly y bu eu carchar."

Ac o achaws y carchar hwnnw, y gelwit y kyuarwydyt hwnnw, Mabinogi Mynweir a Mynord. Ac yuelly y teruyna y geing honn yma o'r Mabinogy.

-----  
manawydan uab llyr  
-----

## MATH UAB MATHONWY

MATH uab Mathonwy oed arglwyd ar Wyned, a Fryderi uab Fwyll oed arglwyd ar un cantref ar ugeint yn y Deheu. Sef oed y rei hynny, seith cantref Dyuet, a seith Morgannhwo, a phedwar Kyredigyawn, a thri Ystrat Tywi. Ac yn yr oes honno Math uab Mathonwy ny bydei uyw, namyn tra uei y deudroet ymlyc croth morwyn, onyt kynwryf ryuel a'y llesteirei. Sef oed yn uorwyn gyt ac ef, Goewin uerch Febin o Dol Pebin yn Aruon. A honno teccaf morwyn oed yn y hoed o'r a wydit yno. Ac ynteu yg Kaer Dathyl yn Aruon yd oed y wasta [82]trwyd. Ac ny allei gylchu y wlat, namyn Giluathwy uab Don, [a Gwydyon] uab Don, y nysint ueibon y chwaer, a'r teulu gyt ac wy [a aei] y gylchu y wlat drostaw.

A'r uorwyn oed gyt a Math yn wastat; ac ynteu Giluathwy uab Don a dodes y uryt ar y uorwyn, a'r charu hyt na wydat beth a wmay ymdanei. Ac nachaf y liw a'y wed a'y ansawd yn atueilaw o'y charyat, hyt nat oed hawd y adnabot.

Sef a wmaeth Gwydyon y urawd, synnyeit dydgweith arnaw yn graf. "A was," heb ef, "pa derw ytti?" "Pa ham?" heb ynteu. "Beth a wely di arnaf i?" "Gwelaf arnat," heb ef, "oelli dy bryt a'th liw, a pha deryw yti?" "Arglwyd urawt," heb ef, "yr hynn a deryw ymi ny frwytha ymi y adef y neb." "Beth yw hynny, eneit?" heb ef. "Ti a wdost," heb ynteu, "kynedyf Math uab Mathonwy; ba hystyng bynnac, yr y uychanet, o'r a uo y rwng dynnyon, o ry kyuarfo y guynt ac ef, ef a'y gwybyd." "Ie," heb y Gwydyon, "taw di bellach. Mi a wnn dy uedwl di; caru Goewin yd wyt ti." Sef a wmaeth ynteu yna, pan wybu ef adnabot o'y urawt y uedwl, dodi ucheneit dromhaf yn y byt. "Taw, eneit, a'th ucheneidaw," heb ef, "nyt o hynny y goruydir. Minheu a baraf,"

-----  
math uab mathonwy  
-----

heb ef, "cany ellir heb hynny, dygyuori Gwyned [83] a Phowys a Deheubarth y geissaw y uorwyn; a byd lawen di, a mi a'y paraf yt."

Ac ar hynny at Uath uab Mathonwy yd aethant wy. "Arglwyd," heb y Gwydyon, "mi a gigleu dyuot y'r Deheu y ryw bryuet ni doeth y'r ynys honn eirot." "Fwy eu henw wy?" heb ef. "Hobeu, Arglwyd." "Fa ryw anieileit yw y rei hynny?" "Anieileit bychein, guell eu kic no chic eidon. Bychein ynt ynteu; ac y maent yn symadaw enweu. Moch y gelwir weithon." "Fwy biewynt wy?" "Fryderi uab Fwyll, yd anuonet idaw o Innwn y gan Arawn Urenhin Annwn." (Ac etwa yd ys yn cadw o'r enw hwnnw hanner hwoch, hanner hob).

"Ie," heb ynteu, "ba furaf y keffir wy y gantaw ef?" "Mi a af ar uyn deudecuet, yn rith beird, Arglwyd, y erchi y moch." "Ef a ry eill ych necau, heb ynteu. "Nit drwc uyn trawscwyd i, Arglwyd," heb ef. "Ny doaf i heb y moch." "En llawen," heb ynteu, "kerda ragot."

Ef a aeth, a Giluathwy, a deguyr gyt ac wynt, hyt yg Keredigyawn, yn y lle a elwir Rudlan Teidi yr awrhon; yd oed llys yno y Pryderi; ac yn rith beird y doethant ymywn. Llawn uant wrthunt. Ar neillaw Pryderi y gossodet Gwydyon y nos honno. "Ie," heb y Pryderi, "da yw [84] genhym ni cahel kyuarwydyt gan rei o'r gwreino racco." "Moes yw genhym ni, Arglwyd, heb y Gwydyon, "y nos gyntaf y delher at wr mawr, dywedut o'r penkerd. Mi a dywedaf gyuarwydyd yn llawen."

Inteu Wydyon goreu kyuarwyd yn y byt oed. A'r nos honno, didanu y llys a wnaeth ar ymdidaneu digrif a chyuarwydyt, yny oed hoff gan paub o'r llys, ac yn didan gan Pryderi ymdidan ac ef.

Ac ar diwed hynny, "Arglwyd," heb ef, "ae guell y gwma heb uy neges i wrthyt ti no mi uu hun?" "Na well," heb ynteu. "Tawwt lawn da yw y teu di." "Llyna uy neges inheu, Arglwyd, ymadolwyn a thidi am yr anieileit a anuonet i o Annwyn." "Ie," heb ynteu, "hawssaf yn y byt oed hynny by na bei amnot y rof a'm gwlat andanunt; sef yw hynny, nat elont y genhyf yny hilyont eu deu kynteu yn y wlat." "Arglwyd," heb ynteu, "minheu a allaf dy rydhau ditheu o'r geireu hynny. Sef ual y gallaf, na dyro im y moch heno, ac [na] nacaha ui ohonunt. Auory minheu a dangosaf gyfnewit andanunt wy."

A'r nos honno yd aethant ef a'y gedymdeithon y'r lletty ar y kynghor. "A wyr," heb ef, "ny chwami y moch oc eu herchi." [85] "Ie," heb ynteu, "pa drawscwyd y keir wynteu?" "Mi a baraf eu cael," heb y Gwydyon. Ac yna yd aeth ef yn y gelyddodeu, ac y dechreuawt dangos y hut, ac yd hudwys deudec enys, a deudec milgi bronwyn du pob un o honunt, a deudec torch, a deudec kyfrwy ar y meirch ac am pob lle y dylvei hayam uot amunt, y bydei gwbyl o eur; a'r frwyneu yn un weith a hynny.

math uab mathonwy

A'r meirch ac a'r cwm y doeth ef at Pryderi. "Dyd da it, Arglwyd," heb ef. "Dw a ro da it," heb ef, "a graessaw wrthyt." "Arglwyd," heb ef, "llyma ryddit yti am y geir a dywedeist neithwyr am y moch, nas rodut ac nas guerthut. Titheu a elly gyfnewit yr a uo guell. Minheu a rodaf y deudec meirch hynn ual y maent yn gyueir, ac eu kyfrwyneu, ac eu frwyneu, a'r deudec milgi ac eu torchau ac eu kynllyuaneu, ual y guely, a'r deudec tarvan eurent a wely di racco." (Y rei hynny a rithassei ef o'r madalch). "Ie," heb ynteu, "ni a gymerwn kynghor." Sef a gaussant yn y kynghor, rodi y moch e Wydyon, a chymryt y meirch a'r cwm a'r taryaneu y gantaw ynteu.

Ac yna y kymeryssant wy ganheat, ac y dechreussant gerlet a'r moch. "a geimeit," heb y Gwydyon, [86] "reit yw in gerdet yn bryssur. Ny phara yr hut namyn o'r pryt pwy gilyd." A'r nos honno y kerdysstant hyt ygwarthaf Keredigyawn, y lle a elwir etwa o achaw hynny Mochtreff. A thrannoeth y kymeryssant eu hynnt; dros Elenit y doethant. A'r nos honno y tuant y rwmg Keri ac Arwystli, yn y dref a elwir heuyt o achaw hynny Mochtreff. Ac odyne y kerdysstant radunt, a'r nos honno yd aethant hyt yg kymwt ym Powys, a elwir o'r ystyr hwnnw heuyt Mochnant, ac yno y buant y nos honno. Ac odyne y kerdysstant hyt yg cantref Ros, ac yno y buant y nos honno y mywn y dref a elwir etwa Mochtreff.

"Ha wyr," heb y Gwydyon, "ni a gyrchwn kedernit Gwyned a'r anieileit hynn. Yd ys yn lluydaw yn an ol." Sef y kyrchysstant y dref uchaf o Arllechwoed, ac yno gwneuthur oreu y'r moch, ac o'r achaw hwnnw y dodet Creuwryon ar y dref. Ac yna guedy gwneuthur oreu y'r moch y kyrchysstant ar Uath uab Mathonwy, hyt yg Kaer Dathyl.

A phan doethant yno, yd oedit yn dygyuori y wlat. "Fa chwedleu ysseyd yma?" heb y Gwydyon. "Dygyuor," heb wy, "y mae Pryderi yn ych ol dmi un cantref ar ugeint. Ryued uu hwyrret y kerdysssawchi." "Mae yr anieileit yd aethawch yn eu hwyse?" heb y Math. "Maent [87] guedy gwneuthur creu udunt yn y cantref arall issot," heb y Gwydyon. Ar hynny, llyma y clywynt yr utkym a'r dygyuor yn y wlat. Ar hynny guiscaw a wnaethant wynteu, a cherdet yny uydant ym Pennard yn Arcon.

A'r nos honno yd ymhwelwys Gwydyon uab Don a Chiluwathwy y urewt, kyt yg Kaer Dathyl. Ac yguely Math uab Mathonwy dodi Giluathwy a Coewyn uerch Pebin y gyscu y gyt, a chymell y morynyon allan yn amharcius, a chyscu genti o'y hanuod y nos honno.

Pan welsant y dyd drannoeth, kyrchu a wnaethant parth a'e lle yd oed Math uab Mathonwy a'y lu. Pan doethant, yd oed y guyr hynny yn mynet y gymryt kynghor ba tu yd arhoyst Pryderi a guyr y Deheu. Ac ar y kynghor y doethant wynteu. Sef a gaussant yn eu kynghor, aros yg kedernit Gwyned yn Arcon. Ac yghymherued y dwy uaymawr yd arhoed, Maynawr Bennard a Maynawr Coet Alun.

math uab mathonwy

A Phryderi a'y kyrcywys yno wynt; ac yno y bu y gyfranc, ac y llas lladua uawr o pop parth, ac y bu reit y wyr y Deheu enkil. Sef lle yd enkilyssant, hyt y lle a elwir etwa Nant Call; a hyt yno yd ymlidywyd. Ac yna y bu yr gyrna diuessur y meint. Ac [88] yna y kilyssant hyt y lle a elwir Dol Pennaen. Ac yna clyma a wnaethant, a cheissaw ymdangneuedu, a gwystlaw a wnaeth Phryderi ar y tangneued. Sef a wystlwys, Gwrgi Guastra, ar y pedwryd ar ugeint o usibyon gyrdia.

A guedy hynny, kerdet o honunt yn eu tangneued hyt y Traeth Mawr; ac ual y gyt ac y doethant hyt y Uelen Ryd y pedyt ny ellit eu reoli o ymsaethu, gyrru kennadeu o Phryderi y erchi guahard y deulu, ac erchi gadu y ryngtaw ef a Guydyon uab Don, canys ef a baryssei hynny. At Math uab Mathonwy y doeth y genhat. "Ie," heb y Math, "e rof a Duw, os da gan Wydyon uab Don, mi a'e gadaf yn llawen. Ni chymellaf inheu ar neb uynet e ymlad, dros wneuthur ohanam ninheu an gallu." "Dicer," heb y kennadeu, "teg, med Phryderi, oed y'r gwr a wnaeth hyn idaw ef o gam, dod y gorf yn erbyn y eidaw ynteu, a gadu y-deu lu yn segur." "Dygaf y Duw uyg kyffes," [heb y Guydyon], "nat archaf i y wyr Gwyned ymlad dros ef i, a minheu uy hun yn cael ymlad a Phryderi. Mi a dodaf uyg korf yn erbyn y eidaw yn llawen."

A hynny a anuchet at Phryderi. "Ie," heb y Phryderi, "nit archaf inheu y heb gouyn uy iawm namyn my hun." E gwyr hynny a neillitwyd, ac a dechreuwyd gwiscaw amdanunt, ac [89] ymlad a wnaethant. Ac o nerth grym ac angerd, a hut a lledrith, Guydyon a oruu, a Phryderi a las, ac y Maen Tyuys uch y Uelen Ryd y cladwyd, ac yno y may y ued.

Gwyr y Deheu a gerlasant ac argan truan ganthunt parth ac eu gwlat, ac nit oed ryued; eu harglwyd a gollyssynt, a llawer oc eu goreuguyr, ac eu meirch, ac eu harueu can myaf.

Gwyr Gwyned a ymchweles dracheuyn yn llawen orawenus. "Arglwyd," heb y Guydyon wrth Uath, "penyt oed iawm ynni ollwng eu dylydauc y wyr y Deheu, a wystlyssant in ar tangneued? Ac ny dylywn y garcharu." "Rydhaer ynteu," heb y Math. A'r guas hwnnw, a'r gwystlon oed gyt ac ef, a ellyngwyd yn ol guyr y Deheu.

Enteu Math a gyrchwys Caer Tathyl. Giluathwy uab Don a'r teulu a unassynt gyt ac ef, a gyrchwysant y gylchaw Gwyned mal y gnotayssynt, a heb gyrchu y llys. Enteu Uath a gyrchwys e ystauell, ac a beris kyweiraw lle idaw y benelinyaw, ual y caei dod y draet ym plyn croth y uorwyn. "Arglwyd," heb y Goewyn, "kais uorwyn a uc is dy draet weithon. Gwreio wyf i."

-----  
math uab mathonwy  
-----

"Pa ystyr yw hynny?" "Kyrc, Arglwyd, a doeth am uym penn, a hynny yn diargel, ac ny buam distaw inheu. Ny bu yn y llys nys guypei. Sef a doeth, dy nyeint usibon dy cwaer, [90] Arglwyd, Gwydyon uab Don a Giluathwy uab Don. A threis arnaf a orugent a chywilyd y titheu, a chysou a wnaethpwyd genhyf, a hynny i'th ystauell ac i'th wely." "Ie," heb ynteu, "yr hyn a allaf i, [mi a'e gwmaf]. Mi a baraf iawm y ti yn gyntaf, ac yn ol uy iawm y bydaf inheu. A thitheu," heb ef, "mi a'th gymeraf yn wreio im, ac a rodaf uedyant uyg lyuoeth i'th law ditheu."

Ac yn hynny ny doethant wy yng kyuyd y llys, namyn trigyaw y gylchaw y wlat a wnaethant yny aeth guahard udunt ar y bwyd a'y llyn. Yn gyntaf ny doethant wy yn y guyl ef. Yna y doethant wynteu attaw ef. "Arglwyd," heb wynt, "dyd da it." "Ie," heb ynteu, "ay y wneuthur iawm ymi y doethauch chwi?" "Arglwyd, i'th ewyllus yd ydym." "Bei uy ewyllwys ny chollln o wyr ac arueu a golleis. Vyg kywilyd ny ellwch chwi y dalu y mi, heb anghu Phryderi. A chan doethauch chwitheu y'm ewyllus inheu, mi a dechreuaf boen arnawch."

Ac yna y kymerth e hutlath, ac y treads Giluathwy yny uyd daran ewic; ac achub y llall a wnaeth yn gyflym, kyt mynhei diano nys gallei, a'y taraw a'r un hutlath yny uyd yn garw. "Canys ywch yn rymedigaeth, mi a wmaf ywch gerdet y gyt, a'ch bot yn gymareddic, ac yn [91] un anyan a'r gwduilrot yd ywch yn eu rith, ac yn yr amser y bo etiued udunt wy, y uot ywchwitheu. A blwydym y hediw, dowch yma ataf i."

Ym penn y ulwydym o'r un dyd, llyma y clywei odorun adan paret yr ystauell, a chyuarthua cwn y llys am penn y godorun. "Edrych," heb ynteu, "beth yssyd allan." "Arglwyd," heb un, "mi a edrycheis. Mae yna carw, ac ewic, ac elein gyt ac wynt." Ac ar hynny, kyuedi a oruc ynteu a dyuot allan. A phan doeth, sef y guelei y trillydyn; sef trillydyn oedynt, carw, ac ewic, ac elein cryf. Sef a wnaeth, dyrchauael e hutlath. "Yr hwnn a uu o honawch yn ewic yrillyned, bit used oed yleni. A'r hwnn a uu garw o honawch yrillyned, bit garmen eleni." Ac ar hynny, eu taraw a'r hutlath.

"Y mab hagen a gymeraf i, ac a baraf y ueithryn a'y uedydyaw." Sef enw a dodet arnaw, Hydwn. "Ewch chwitheu, a bydwch y lleill yn used oed, a'r llall yn garmen coet. A'r anyan a uc y'r mech coet, bit y chwitheu. A blwydym y hediw bydwch yma ydan y paret, ac ych etiued y gyt a chwi."

Ym penn y ulwydym, llyma y clywyn kyuarthua cwn dan paret yr ystauell, a dygyuor y llys y am hynny am eu penn. Ar hynny, kyuedi a oruc [ynteu] a mynet allan. A phan daw [92] allan, trillydyn a wleis. Sef kyfryw lyndot a wleis, baed oed, a charmen coet, a chrynwllwddyn da y gyt ac wy. A breisc oed yn yr oet oed arnaw.

-----  
math uab mathonwy  
-----

"Ie," heb ef, "hwmn a gymeraf i attaf, ac a baraf y uedydyaw," - a'y daraw a'r hutlath, yny uyd yn uab braswineu teledi. Sef enw a dodet ar hwmn, Hychdwn. "A chwitheu, yr un a uu baed coet o honawch yrlllynad, bit bleidast yleni, a'r hwn a uu garnen yrlllynad, bit uleid yleni." Ac ar hynny eu taraw a'r hutlath, yny uydant bleid a bleidast. "Ac anyan yr anueileit yd ywch yn eu rith, bit y chwitheu. A bydwch yma blwydyn y'r dyd heddiw ydan y paret hwmn."

Yr un dyd ym penn y ulwydyn, llyma y clywei dygyuor a chyuarthua dan paret yr ystauell. Ynteu a gyuodes allan, a phan daw, llyma y gueleid bleid, a bleidast, a chrubothon cryf y gyt ac wynt. "Hwmn a gymeraf i," heb ef, "ac a baraf y uedydyaw, ac y mae y enw yn parawt. Sef yw hwmn, Bleidwn. Y tri meib yssyd y chwi, a'r tri hynny ynt:-

Tri meib Giluathwy onwir,  
Tri ohenryssedat kywir,  
Bleidwn, Hydwn, Hychdwn Hir."

Ac ar hynny, yn y taraw wynteu yll deu a'r hutlath yny uydant yn eu onawt eu hun. "A wyr," heb ef, "o gwaethauch gan ymi, digawn y buawch ym poen, a chywilyd mawr a gawssawch, bot [93] plant o bob un o honawch o'y gilid. Perwch enneint y'r gwyr, a golchi eu penneu, ac eu kyweiraw." A hynny a berit udunt.

A guedy ymgueiraw ohonunt, attaw ef y kyrchysant. "A wyr," heb ef, "tangued a gawsawch, a chereynydd a geffwch. A rodwch im kynghor pa uorwyn a geisswyf." "Arglwyd," heb y Guydyon uab Don, "hawd yw dy gynghori. Aranrot uerch Don, dy nith uerch dy chwaer."

Honno a gyrchwyt attaw. Y uorwyn a doeth ynywn. "A uorwyn," heb ef, "a wyt uorwyn di?" "Ny wnn i angen no'm bot." Yna y kymarth ynteu yr hutlath a'y chami. "Canha di dros honn," heb ef, "ac ot wyt uorwyn, mi a ednebydaf." Yna y camawd hitheu dros yr hutlath, ac ar y cam hwmn, adaw nab brasuelyn mawr a oruc. Sef a wnaeth y nab, dodi diaspatt uchel. Yn ol diaspatt y nab, kyrohu y drws a oruc hi, ac ar hynny adaw y ryw bethan ohonei; a chyn cael o neb gulet yr eil olwoc amaw, Guydyon a'y kymarth, ac a droes llen o bali yn y gylch, ac a'e cudyawd. Sef y cudyawd, y nywn llaw gist is traed y wely.

"Ie," heb [Math uab] Mathonwy, "mi a baraf uedydyaw hwm," wrth y nab brasuelyn. "Sef enw a baraf, Dylan." Bedydyaw a wnaethpwyd y nab, ac y gyt ac y bedydywyt, y mor a gyrchwys. [94] Ac yn y lle, y gyt ac y doeth y'r mor, anyan y mor a gwas, a chystal y nouei a'r pycs goreu yn y mor, ac o achaws hynny y gelwit Dylan Eil Ton. Ny thorres tonn adanaw eiryoet. A'r ergyt y doeth y anghau ohonaw, a yrrywys Gouannon y ewythyr. A hwmn a uu trydyd ennat ergyt.

-----  
math uab mathonwy  
-----

Val yd oed Wydyon diarnawt yn y wely, ac yn deffroi, ef a glywei diaspatt yn y gist is y draet. Kyny bei uchel hi, kyruoch oed ac y kigleu ef. Sef a oruc ynteu, kyudi yn gyflym, ac agori y gist. Ac ual y hegyr, ef a weleu uab bychan yn rwyuaw y ureicheu o blyc y llen, ac yn y guascaru. Ac ef a gymerth y nab y rwng y dwylaw ac a gyrchwys y dref ac ef, lle y gwylat bot gwreic a bronneu genti. Ac ymbyrn a wnaeth a'r wreic ueithryn y nab. Y nab a wagwyt y ulwydyn honno. Ac yn oet y ulwydyn hof oed gantunt y ureisket bei dwy ulwyd. A'r eil ulwydyn nab mawr oed, ac yn gallu e hun kyrohu y llys. Ynteu e hun Wydyon, wedi y dyuot y'r llys a synnywys amaw. A'r nab a ym-geneuinawd ac ef, ac a'y carewd yn uwy noc un dyn. Yna y magwyt y nab yn y llys yny uu pedeirblwyd. A hof oed y uab wyth [95] mlwyd uot yn gynureisket ac ef. A diwynnawt ef a gerdawd yn ol Gwydyon y orymdeith allan. Sef a wnaeth, kyrohu Caer Aranrot a'r nab y gyt ac ef. Gwedy y dyuot y'r llys, kyudi a oruc Aranrot yn y erbyn y raessaw, ac y gyuarth guell idaw. "Dw a ro da it," heb ef. "Pa uab yssyd i'th ol di?" heb hi. "Y nab hwmn, nab y ti yw," heb ef. "Oy a wr, ba doi arnat ti, uyg kywilydaw i, a dilyt uyg kywilyd, a'y gadw yn gyhyt a hymn?" "Oy byd arnat ti gywilyd uwy no seithryn o honaf i uab kystal a hwmn, ys bychan a beth uyd dy gywilyd di." "Fwy enw dy uab dy?" heb hi. "Dicer," heb ef, "nit oes amaw un enw etwa." "Ie," heb hi, "mi a gynghaf dyghet idaw, na chaffo enw yny caffo y genhyt i." "Dygaf y Duw uyg kyffes," heb ef, "direit wreic wyt, a'r nab a geiff enw, kyt boet drwo genhyt ti. A thitheu," heb ef, "yr hwmn yd wyt ti, ac auar arnat am na'th elwir y uorwyn, ni'th elwir bellach byth yn uorwyn."

Ac ar hynny, kerdet e ymdeith drwy y lit a wnaeth, a chyrohu Caer Tathyl, ac yno y bu y nos honno. A thramoeth kyudi a oruc, a chymryt y uab gyt ac ef, a mynet y orymdeith gan lann y weilgi rmg hynny ac Aber Menei. Ac yn y lle y guelas delysc a morwyal, hudaw llong a wnaeth. Ac o'r guinnon a'r [96] delysc hudaw cordwal a wnaeth, a hynny llawer, ac eu brithaw a oruc hyt na welsei neb lledyr degach noc ef. Ac ar hynny, kyweiraw hwyl ar y llong a wnaeth, a dyuot y drws porth Caer Aranrot, ef a'r nab yn y llong. Ac yna dechreu llunyaw esgidyeu, ac eu gmiaw. Ac yna y harganot o'r gaer.

Fan wybu ynteu y arganot o'r gaer, gwyn eu heilyw e hun a oruc, a dodi eilyw arall arnunt, ual nat adnepit. "Pa dynon yssyd yn y llong?" heb yr Aranrot. "Crydyon," heb wy. "Ewch y edrych pa ryw ledyr yssyd ganthunt, a pha ryw weith a wnant." "Yna y doethpwyd, a phan doethpwyd, yd oed ef yn brithaw cordwal, a hynny yn eurt. Yna y doeth y kennadeu, a menegi idi hi hynny. "Ie," heb hitheu, "dygwch uessur uyn troet, ac erchweh y'r cryd wneuthur esgidyeu im." Ynteu a lunywys yr esgidyeu, ac nit wrth y messur, namyn yn uwy. Dyuot a'r esgidyeu idi. Nachaf yr esgidyeu yn ornod. "Ryuawr yw y rei hynn," heb hi. "Ef a geiff werth y rei hynn, a gmaet heuyt rei a uo llei noc wynt." Sef a wnaeth ef, gwneuthur reireill yn llei llawer

-----  
math uab mathonwy  
-----

no'y throet, a'y hanuon idi. "Dywedwch idaw, nit a ymi un o'r esgidyeu hynn," heb hi. Ef a dywetpwyd idaw. "Ie," heb ef, "ny lunyaf esgidyeu idi yny welkwyf y throet." A hynny a dywetpwyd idi. "Ie," heb hi, [97] "mi a af hyt attaw."

Ac yna y doeth hi hyt y llong. A phan doeth, yd oed ef yn llunyaw, a'r mab yn gwniaw. "Ie, Arglwydes," heb ef, "dyd da it." "Duw a ro da it," heb hi. "Eres yw genhyf na uedrut kymedroli [ar wneuthur] esgidyeu wrth uessur." "Na uedreis," heb ynteu. "Mi a'y medraf weithon."

Ac ar hynny, llyma y dryw yn seuyll ar wrd y llog. Sef a wnaeth y mab, y uwrw a'y uedru y rws gwelyn y esgeir a'r ascwrn. Sef a wnaeth hitheu, chwerrthin. "Dicer," heb hi, "ys llaw gyffes y medrws y lleu ef." "Ie," heb ynteu, "aniolwch Duw it. Neur gauas ef enw. A da digawn yw y enw. Llew Llaw Gyffes yw bellach."

Ac yna diffllanm y gueith yn delysc ac yn wimon. A'r gueith ny chanlymwyd ef hwy no hynny. Ac o'r achaws hwnnw y gelwit ef yn drydyd eur gryd.

"Dicer," heb hitheu, "ni henbydy well di o uot yn drw wrthyf i." "Ny buam drw i etwa wrthyf ti," heb ef. Ac yna yd ellyngwys ef y uab yn y bryt e hun, ac y kynnerth y furyf e hun. "Ie," heb hitheu, "minheu a dyghaf dyghet y'r mab hwnn, na chaffo arueu byth yny gwiscof i ymdanaw." "Y rof a Duw," heb ef, "handid o'th direiddi di, ac ef a geif arueu." Yna y doethant wy parth a Dinas Dinllef. Ac yna meithryn Llew Llaw Gyffes yny allwys marchogaeth pob [98] march, ac yny oed gwyl o bryt, a thwf, a meint.

Ac yna adnabot a wnaeth Gwydyon arnaw y uot yn kymryt dihirwch o eisseu meirch ac arueu, a'y alw attaw a wnaeth. "A was," heb ynteu, "ni a zwn, ui a thi, y neges auory. A byd lawenach noc yd wyt." "A hynny a wnaef inheu," heb y guas.

Ac yn ieuengtut y dyd trannoeth, kyucdi a wnaethant, a chymryt yr aruordir y uynydd parth a Brynn Arven. Ac yn y penn uchaf y Geuyn Clutno, ymgueiraw ar ueirch a wnaethant, a dyuot parth a Chaer Aranrot. Ac yna amgeni eu pryt a wnaethant, a chyrchu y porth yn rith deu was ieuene, eithyr y uot yn prudach pryt Gwydyon noc un y guas.

"E porthawr," heb ef, "dos ymywn, a dywet uot yna beird o Uorgannwo." Y porthawr a aeth. "Grassaw Duw wrthunt. Gellwng y mywn wy," heb hi. Diruawr leuend a un yn eu herbyn. Yr yneud a gyweirwyd ac y wryta yd aethpwyd. Guedy daruot y bwyta, ymdidan a wnaeth hi a Guydyon am chwedleu a chyuarwydyt. Ynteu Wdydyon kyuarwyd da oed.

-----  
math uab mathonwy  
-----

Guedy bot yn emser ymadaw a chyuedach, ystauell a gweirwyd udunt wy, ac y gyscu yd aethant. Hir bylgeint Guydyon a gyuodes. Ac yna y gelwis ef y hut a'y allu attaw. [99] Erbyn pan oed dyd yn goluhau, yd oed gynyweir ac utkyrn a lleusin yn y wlat yn gyngan. Pan ydoed y dyd yn dyuot, wynt a glywynt taraw drws yr ystauell, ac ar hynny Aranrot yn erchi agori. Kyucdi a oruc y guas ieuene, ac agori. Hitheu a doeth y mywn, a moryn y gyt a hi. "A wyrda," heb hi, "lle drw yd ym." "Ie," heb ynteu, "ni a glywn utkyrn a lleusin, a beth a debygy di o hynny?" "Dicer," heb hi, "ni chawn welet llyw y weilgi gan pob llong ar torr y gilyd. Ac y maent yn kyrchu y tir yn gyntaf a allont. A pha beth a wnaeni?" heb hi. "Arglwydes," heb y Gwydyon, "nyt oes in gyngor, onyt caeu y gaer arnaw, a'y chynhal yn oreu a allom." "Ie," heb hitheu, "Duw a dalho ywch. A chynhelwch chwitheu; ac yna y keffwch digawn o arueu."

Ac ar hynny, yn ol yr arueu yd aeth hi. A llyma hi yn dyuot, a dwy uorwyn gyt a hi, ac arueu deu wr gantunt. "Arglwydes," heb ef, "gwisc ymdan y gwryanc hwnn. A minheu, ui a'r morynyon, a wiscaf ymdanaf inheu. Mi a glywaf odorun y gwyr yn dyuot." "Hynny a wnaef yn llawen." A guiscaw a wnaeth hi ymdanaw ef yn llawen, ac yn gwyl.

